YMDDIRIEDOLAETH CATHERINE A'R FONESIG
GRACE JAMES, PANTYFEDWEN

# DIWINYDDIAETH FUGEILIOL:
# EI SEILIAU A'I HEGWYDDORION

*Darlith Syr D.J. James 1990*

*gan*

E. ap Nefydd Roberts

Prifathro'r Coleg Diwinyddol Unedig, Aberystwyth

Traddodwyd yng

NGHOLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU, BANGOR

TŶ JOHN PENRY
ABERTAWE
1990

ISBN 1 871799 06 6

*Argraffwyd gan Wasg John Penry, Abertawe.*

# *Rhagair*

O fwrw golwg dros y rhestr o ddarlithiau a draddodwyd ac a gyhoeddwyd yn y gyfres hon a'r amrywiaeth eang o bynciau a drafodwyd gwelir cymaint fu cyfraniad Darlithiau Syr D.J. James i astudiaethau diwinyddol yng Nghymru dros y blynyddoedd. Anrhydedd a werthfawrogaf yn fawr yw derbyn gwahoddiad yr Ymddiriedolwyr i draddodi'r ddarlith hon yn 1990 ac yr wyf yn dra diolchgar am y fraint a estynnwyd imi i fwrw fy hatling innau i'r drysorfa hon o ddysg. Derbyniais bob cymorth a chefnogaeth oddi wrth Ysgrifennydd hynaws Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James, Mr. Richard H. Morgan – gŵr y mae eglwysi ac enwadau Cymru, ynghyd â nifer o achosion teilwng eraill, yn drwm yn ei ddyled. Elwais o garedigrwydd Mr. Elfryn Thomas a staff Tŷ John Penry droeon o'r blaen a diolchaf iddynt hwythau am eu cymorth parod a'u hamynedd wrth dywys y ddarlith hon drwy'r wasg.

Penderfynais gymryd fel testun 'Diwinyddiaeth Fugeiliol: ei seiliau a'i hegwyddorion' a hynny am nifer o resymau. Yn y lle cyntaf, y mae'n bwnc y bûm yn ymwneud ag ef am ugain mlynedd yn y weinidogaeth fugeiliol ac am bron i ddeng mlynedd wrth geisio cyfarwyddo cwrs astudiaethau bugeiliol i ymgeiswyr am y weinidogaeth. Rheswm arall yw'r doreth o lyfrau yn y maes a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn amrywio o drafodaethau diwinyddol academaidd i lyfrynnau poblogaidd ar wahanol agweddau ar fugeilio a chwnsela. Ychydig iawn o'r deunydd hwn a drafodwd yn y Gymraeg hyd yma. Ond y prif reswm yw fy argyhoeddiad o bwysigrwydd y pwnc. Diwinyddiaeth fugeiliol yw'r bont rhwng diwinyddiaeth academaidd haniaethol a gwaith a chenhadaeth yr eglwys, ac y mae'n hanfodol fod trafnidiaeth yn croesi'r bont i'r ddau gyfeiriad – yr ymarferol yn porthi a chywiro'r diwinyddol, a'r diwinyddol yn goleuo a chyfeirio'r ymarferol. O bosib mai un rheswm am y duedd anffodus heddiw i fychanu'r wedd fugeiliol ar waith yr eglwys a'r weinidogaeth, ac i ildio'r gwaith i gyfryngau secwlar a mudiadau lles gwirfoddol, yw ein hesgeulustod yn y gorffennol o seiliau a chynnwys diwinyddol y gwaith.

Ni ellir o fewn cwmpas darlith fel hon wneud mwy na chynnig amlinelliad o rai o'r prif ystyriaethau diwinyddol mewn perthynas

â gofal bugeiliol, ac yr wyf yn ymwybodol iawn o'r bylchau amlwg sydd yn y drafodaeth hon. Ni allaf ond gobeithio y bydd y braslun hwn yn ysgogi eraill i bori ymhellach yn y maes ac i ystyried yn fanylach y cwestiynau a drafodir, yn enwedig mewn perthynas â'r dasg fugeiliol yn y Gymru gyfoes.

Ionawr 1990 E. ap Nefydd Roberts

# 1.

# *Ffiniau'r Maes*

Pwnc eang, amlochrog ac anodd ei ddiffinio yw diwinyddiaeth fugeiliol. Y prif anhawster yw canfod diffiniad cynhwysfawr sy'n cwmpasu'r nifer fawr o labelau ac o is-deitlau cysylltiedig â'r pwnc sydd wedi ymgasglu o'i gwmpas a llwyddo i'w plethu'n foddhaol i'w gilydd – termau fel astudiaethau bugeiliol, gofal bugeiliol, cwnsela, seicoleg fugeiliol, a'r termau hynny'n cysylltu'n uniongyrchol â chlwstwr arall o labelau megis athrawiaeth yr eglwys, cenhadu, cyfathrebu, litwrgi ac addoli, addysg Gristnogol a chymdeithaseg crefydd. Gellir cribinio yn y toreth o lyfrau a gyhoeddwyd ar y pwnc yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chanfod bod llawer iawn o awduron yn gwrthod, neu'n dewis osgoi diffiniad manwl o'r maes, a hynny am fod unrhyw un diffiniad yn debygol o gau allan elfennau na ddylid colli golwg arnynt. Yn ôl Derek Tidball, y mae diwinyddiaeth fugeiliol yn debyg i octopws a pheryglus yw mynd i'r afael â'r creadur amlfreichiog hwnnw! Mae'r mwyafrif, meddai, yn bodloni ar ddisgrifio rhai o'r breichiau ac y mae angen cryn ddewrder i blymio i'r dyfnderoedd i geisio bwrw golwg ar yr anghenfil cyfan a rhoi disgrifiad llawn ohono.[1]

Y mae Michael Taylor, er enghraifft, yn ei lyfr *Learning to Care*,[2] yn trafod diwinyddiaeth gofal bugeiliol yn drylwyr ac yn oleuedig ac eto'n gwrthod cynnig diffiniad cynhwysfawr gan ddewis yn hytrach gyfeirio sylw ei ddarllenwyr at wahanol agweddau ar y pwnc trwy adrodd cyfres o storïau. Y mae fel petae'n dweud na ellir egluro'n union beth yw diwinyddiaeth fugeiliol ond bod modd ei hadnabod a'i deall pan welir hi ar waith. Dadl Taylor yw mai rhywbeth i'w gweithredu yw diwinyddiaeth fugeiliol ac mai yn y broses o'i gweithredu yn unig y mae ei deall a'i dehongli. Dichon bod mesur o wir yn hyn, ond ni ellir, mewn unrhyw faes o ddiwinyddiaeth, osgoi'r dasg o drafod ystyr geiriau a thermau, o roi mynegiant i gysyniadau ac o ddehongli eu harwyddocâd a'u hystyr. Y mae nifer o beryglon yn codi o beidio ag ymgymeryd

â'r dasg ddiwinyddol hon. Y perygl mwyaf mewn perthynas â gofal bugeiliol yw bodloni ar *weithgarwch* yn unig, heb aros i ystyried amcan a chyfeiriad y gweithgarwch, gyda'r canlyniad fod yr ystyr a'r cynnwys crefyddol yn mynd i golli, yn ogystal ag unrhyw wahaniaeth o bwys sydd rhyngddo â gofal bugeiliol dyngarol secwlar. Pan ystyrir gofal bugeiliol fel dim mwy na deall y dechneg o gwnsela, o ymweld, o ddelio â gwahanol sefyllfaoedd bugeiliol a chyfnewid cynghorion a *tips* gweinidogaethol, 'does rhyfedd yn y byd nad yw diwinyddiaeth fugeiliol yn cael ei hystyried o'r un pwys academaidd â'r disgyblaethau clasurol, fel astudiaethau beiblaidd, athrawiaeth, hanes yr eglwys, moeseg ac athroniaeth crefydd.

Cangen o ddiwinyddiaeth ymarferol yw diwinyddiaeth fugeiliol – y gangen honno sy'n ymwneud yn benodol â gofalu am bersonau yn eu hamrywiol brofiadau yn enw Crist a thrwy ei eglwys. Ond y mae diwinyddiaeth ymarferol yn fwy na mater o gyfieithu ac addasu gwirioneddau beiblaidd ac athrawiaethol i weithgarwch ymarferol yn y byd ac yn yr eglwys. Y mae'n fwy na mater o dderbyn diwinyddiaeth bur o feysydd diwinyddol eraill, fel astudiaethau beiblaidd ac athrawiaeth, ac yna eu trawsblannu i sefyllfaoedd ymarferol a phroblemau gweinidogaeth a bywyd yr eglwys. Y mae i ddiwinyddiaeth ymarferol swyddogaeth fwy creadigol a chyfraniad unigryw ganddi i'n dealltwriaeth o athrawiaeth Gristnogol yng ngoleuni ei phrofiad a'i gwybodaeth o'r byd ac o'r sefyllfa ddynol. Y dyna yw ystyr y gair *praxis* y daethom yn gyfarwydd ag ef yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â diwinyddiaeth rhyddhad. Defnyddir y gair yn aml yn yr ystyr o *wneud* diwinyddiaeth, sef rhoi ffydd ar waith. Ond yn ei ystyr gwreiddiol o fewn y gyfundrefn wleidyddol Roegaidd, golygai gyfuniad o ystyriaeth ac ymarfer, o adfyfyrdod *(reflection)* a gweithredu, a'r naill yn cyfoethogi a chyfeirio'r llall – yr adfyfyrio'n ysbarduno'r gweithredu a'r gweithredu'n goleuo'r adfyfyrio. *Praxis* yw damcaniaeth ac ymarfer, ffydd a gweithredoedd yn mynd llaw yn llaw ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Fel y dywed James W. Fowler yn ei ddiffiniad o ddiwinyddiaeth ymarferol, 'Adfyfyrdod a diffiniad diwinyddol yn codi allan o brofiad y gymdeithas o gredinwyr ac yn ei harwain yn *praxis* ei chenhadaeth'.[3]

Diwinyddiaeth ymarferol yw'r eglwys wrth ei gwaith, yn cynrychioli Crist yn y byd, yn gwasanaethu pobl yn ei enw, yn cyhoeddi'r efengyl, yn cenhadu, yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder, yn ei huniaethu ei hun â'r dioddefus a'r diymadferth, ac yn dathlu'r rhyddid a'r bywyd sydd yng Nghrist. Nid cyfieithu ac addasu'r ffydd i'r sefyllfa ddynol yn unig a wna, ond wrth roi'r ffydd ar waith daw i ddeall y ffydd honno'n llawnach a cheisio'i dehongli a'i diffinio i'w chyfnod a'i sefyllfa. Un wedd ar y dasg ddiwinyddol hon (sy'n cynnwys gweithredu ac adfyfyrio), yw diwinyddiaeth fugeiliol, sef gwaith yr eglwys o fugeilio eneidiau, o ofalu a gweinidogaethu i bobl yn holl amrywiaeth eu profiadau dynol. Yna, yng ngoleuni'r gwaith, adfyfyrio ar ei gynnwys, ei gymhelliad a'i gyfeiriad. Golyga hyn holi cwestiynau sylfaenol – *beth? paham? ymhle? pwy? sut?*

*Beth* yw'r gwaith? Ai bugeilio, gofalu, ceisio iechyd enaid, cysuro, gwroli, adeiladu yn y ffydd? *Pam* y mae rheidrwydd arnom i gyflawni'r gwaith? Beth yw ei seiliau beiblaidd ac athrawiaethol a pha mor hanfodol ydyw o fewn cenhadaeth Crist i'r byd? *Ymhle* mae ei gyflawni ac ymhlith pwy? Ai gweithgarwch eglwysig yn unig ydyw ac ai ymhlith ei phobl ei hun yn unig y mae'r eglwys i fugeilio? *Pwy* sy'n cyflawni'r gwaith? Ai'r eglwys gyfan, neu ddosbarth o 'arbenigwyr' o'i mewn? *Sut* mae cyflawni'r gwaith? Ai cwnsela, addysgu, ymweld, a pha ddulliau a thechnegau sy'n briodol ar gyfer y gwaith? Y duedd mewn cyrsiau hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth yn y gorffennol oedd bodloni ar drafod y cwestiwn *sut?*, sef yr hyn a elwid yn *pastoralia* – y dechneg a'r dulliau o fugeilio heb roi ystyriaeth i gwestiynau diwinyddol dyfnach ynglŷn â chymhellion, cynnwys a chyfeiriad y gwaith.

Erbyn hyn, fodd bynnag, cawn ein gorfodi gan amgylchiadau i wynebu'r ystyriaethau diwinyddol. Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd gwelwyd newidiadau enfawr ym mywyd yr eglwysi gydag effeithiau andwyol ar y weinidogaeth fugeiliol. Yn y lle cyntaf, disodlwyd yr *alwedigaeth fugeiliol.* Aeth y gwaith o ofalu a chyfarwyddo fwyfwy i ddwylo proffesiynau eraill – y therapydd a'r cwnselwr secwlar, naill ai o fewn y gwasanaethau cymdeithasol statudol neu'r mudiadau gwirfoddol – gyda'r canlyniad i'r bugail Cristnogol golli hyder yn ei alwedigaeth a mynd i ystyried ei hun yn amatur mewn cymhariaeth â'r fyddin newydd broffesiynol hon. Ceisiodd rhai

gweinidogion efelychu'r cwnselwyr proffesiynol a dysgu oddi wrthynt, ond aeth eraill i esgusodi eu hunain o'r dasg fugeiliol a dewis yn hytrach ymdaflu i agweddu eraill ar waith y weinidogaeth, neu i gefnu'n gyfangwbl ar y weinidogaeth, neu i ymuno ag un o'r proffesiynau gofal eraill. Daeth Anthony Russell i'r casgliad, 'Ar bob lefel y mae'r Eglwys yn ymwybodol fod y weinidogaeth yn wynebu mwy na chyfnod o ansicrwydd dros dro ond argyfwng enbyd'.[4] Nid problem ymarferol o wahanol alwedigaethau yn gorgyffwrdd ac yn sathru traed ei gilydd yw hon, ond problem ddiwinyddol yn ymwneud â natur a chynnwys gwaith bugeiliol Cristnogol.

Yn yr ail le, disodlwyd y *ddelwedd fugeiliol.* Mewn cymdeithas drefol, dechnolegol a diwydiannol, y mae'r darlun o'r bugail a'i braidd yn ddieithr ac yn anghyfarwydd i'r mwyafrif o bobl. Ymateb un gŵr i fyfyriwr diwinyddol a ddigwyddodd ddweud mewn sgwrs ei fod yn dilyn cwrs mewn astudiaethau bugeiliol oedd, 'O, myfyriwr yn y Coleg Amaethyddol ydach chi!' Mae geiriau fel therapydd, analydd, cwnselwr, gweithiwr seiciatrig cymdeithasol, fel petaent yn gweddu i oes dechnolegol, tra bo'r gair *bugail* yn swnio'n nawddoglyd ac yn od o hen ffasiwn. Er i'r term 'gofal bugeiliol' gael ei fabwysiadu o fewn ysgolion a cholegau fel disgrifiad o waith tiwtor personol, heb fod iddo unrhyw ystyr crefyddol, tueddir i osgoi'r term bellach gan fod y ddelwedd o'r bugail fel yr arweinydd doeth a gwybodus yn cyfarwyddo'r defaid anystywallt a thwp yn annerbyniol. (A chreaduriaid anhygoel o dwp yw defaid fel y gŵyr pob gyrrwr car!) A oes cyfiawnhad bellach dros ddefnyddio'r ddelwedd o gwbl, neu a oes modd ei dehongli a'i diffinio mewn termau diwinyddol derbyniol?

Yn y trydydd lle, disodlwyd y *gyfundrefn eglwysig fugeiliol.* Bwriad y gyfundrefn blwyfol o fewn eglwysi sefydledig oedd darparu ar gyfer anghenion ysbrydol a bugeiliol pobl o fewn darn arbennig o wlad. Wedi'r Chwyldro Diwydiannol a thwf a symudiadau poblogaeth, peidiodd y plwyf â bod yn uned fugeiliol realistig. Mynnodd Leslie Paul yn ei adroddiad *The Deployment and Payment of the Clergy* (1964) fod y gyfundrefn blwyfol erbyn hyn yn gwbl amherthnasol am fod yr eglwys bellach yn lleiafrif bychan mewn sefyllfa genhadol.[5] Ac er nad oedd plwyfi swyddogol gan eglwysi rhyddion, yr oeddent hwythau i bob pwrpas ymarferol yn

gwasanaethu ardaloedd penodol. Erbyn heddiw y mae llannau a chapeli, at ei gilydd, yn gweinidogaethu'n fugeiliol i'w pobl eu hunain yn unig, yn hytrach nag i'r gymdeithas ehangach oddi allan. Trefnir cynulleidfaoedd a phlwyfi yn ofalaethau gan yr awdurdodau enwadol gyda olwg ar ddarparu'n fugeiliol ar gyfer aelodau'r eglwysi yn hytrach na'r boblogaeth oddi ymgylch. Beth yw ymhlygiadau hyn i genhadaeth yr eglwys? Onid yw'r eglwys mewn perygl o esgeuluso elfen holl bwysig yn ei chenhadaeth i'r byd os yw'n bod i fugeilio'i phobl ei hun yn unig? Ar y llaw arall, y mae'r sefyllfa hon yn ein gorfodi i gymryd o ddifrif weinidogaeth fugeiliol yr eglwys gyfan i'r gymdeithas o'i hamgylch. Ystyriaethau diwinyddol yw'r rhain, nid mater o drefniadaeth enwadol yn unig. Fel y dywed Derek Tidball, 'Os yw ein diwinyddiaeth fugeiliol i gyfarfod ag anghenion yr eglwys gyfoes rhaid iddi gymryd i ystyriaeth y sefyllfa genhadol y mae ynddi a methiant ein trefniadau presennol i ymateb yn greadigol i'r dasg genhadol. Y mae a wnelo diwinyddiaeth fugeiliol nid yn unig â chorlannu'r defaid sy'n rhan o'r ddiadell, ond hefyd ag ennill mwy o ddefaid.'[6]

Yn bedwerydd, disodlwyd y *rhagdybiaethau athrawiaethol bugeiliol.* Os mai yng ngoleuni'r ffydd Gristnogol y mae cyflawni gweinidogaeth fugeiliol, ac os mai ei bwriad yw cynorthwyo pobl i ganfod cymorth, arweiniad ac aeddfedrwydd yng Nghrist, y mae hyn yn rhagdybio rhyw fesur o ffydd ac o gred Gristnogol. Y ffydd hefyd sy'n rhoi i'r bugail ei 'awdurdod' – nid unrhyw awdurdod sy'n perthyn iddo ef ei hun na'i swydd, ond awdurdod Crist, 'bugail mawr y defaid'. Mewn oes sydd i raddau helaeth wedi cefnu ar y seiliau athrawiaethol ac sy'n sicr yn ymwrthod â phob math o awdurdodaeth, tueddir i ystyried y bugail Cristnogol naill ai fel person llawn bwriadau da ond heb fawr ddim o werth ganddo i'w gynnig, neu fel un sydd, oherwydd ei gred grefyddol, yn debygol o fod yn feirniadol, yn ddedfrydol, neu'n analluog i dderbyn pobl fel ag y maent yn eu gwendidau a'u beiau. Y mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â chynnwys a natur gofal bugeiliol. A oes gwahaniaeth sylfaenol rhwng 'gofal bugeiliol' a 'gofal bugeiliol Cristnogol'? Yn ôl Michael Taylor nid oes gwahaniaeth sylfaenol rhyngddynt, dim ond bod gofal bugeiliol Cristnogol yn digwydd cael ei gyflawni gan Gristnogion, ond bod gwerth i bob math o

ofalu, pwy bynnag sy'n ei gyflawni.[7] Y mae Frank Wright yn mynnu bod gwahaniaeth cymhelliad. Hyd yn oed os na sonnir am Dduw, y mae'r bugail Cristnogol yn ymwybodol o'r presenoldeb dwyfol sydd ymhlyg ym mhob perthynas â phobl.[8] Ond y mae Martin Thornton, ac yn enwedig y diwinydd Calfinaidd Almaenig, Eduard Thurneysen, yn dadlau'n gryf mai tywys pobl i brofiad o'r gras dwyfol sy'n cynnal ac yn cadw yw nod ac amcan gofal bugeiliol Cristnogol.[9] Ac felly, boed y rhagdybiaethau athrawiaethol wedi eu disodli neu beidio, y mae cwestiynau diwinyddol pwysig a pherthnasol yn galw am sylw.

Ar wahân i'r ffactorau allanol hyn sy'n ein gorfodi i roi ystyriaeth i holl faes diwinyddiaeth fugeiliol, y mae hefyd ffactorau *mewnol,* sef datblygiad y pwnc ei hun, yn enwedig dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Dros y cyfnod hwnnw cyhoeddwyd nifer helaeth o weithiau yn ymdrin â'r maes, sefydlwyd nifer o ganolfannau a chlinigau i ymarfer, i arbrofi ac i astudio gwahanol batrymau o ofal bugeiliol, ac enillodd astudiaethau bugeiliol eu lle oddi mewn i gyrsiau diwinyddol academaidd mewn nifer o golegau a phrifysgolion. Symudwyd ymhell iawn oddi wrth y math o astudiaethau bugeiliol a ddisgrifiwyd gynt fel *pastoralia,* nad oeddent, fel arfer, fawr mwy na sgyrsiau anffurfiol yn cynnig cynghorion fel, 'peidiwch ag ymweld ar fore Llun gan fod hwnnw'n ddiwrnod golchi!' – er bod lle i gynghorion buddiol ymhob math o hyfforddiant! Ond at ei gilydd, atodiad i ddiwinyddiaeth go iawn oedd *pastoralia:* y tamaid ymarferol ar ddiwedd y cwrs nad oedd iddo'r un statws academaidd â meysydd eraill diwinyddiaeth. Erbyn hyn y mae'r maes wedi ymledu a dyfnhau ac wedi tyfu'n faes astudiaeth ynddo'i hun. Ond gan mai maes cymharol newydd ydyw, nid oes eto gytundeb unfrydol ynglŷn â'i ffiniau na beth yn union a ddylid ei gynnwys o dan ei ymbarél.

Y mae rhai yn diffinio diwinyddiaeth fugeiliol yn nhermau *gofal am unigolion.* Yr enghraifft orau yw diffiniad enwog Clebsch a Jaekle, sef 'gweithredoedd o ofalu a gyflawnir gan bersonau Cristnogol cynrychioliadol *(representative Christian persons)* gyda'r bwriad o iacháu, cynnal a chymodi pobl yn eu gofidiau'.[10] Y mae'r disgrifiad hwn yn cyfyngu'r maes, yn gyntaf, i weinidogion ordeiniedig yn bennaf, gan mai hwy yw'r 'personau Cristnogol cynrychioliadol' y cyfeirir atynt, tra byddai eraill am fynnu bod

a wnelo'r eglwys gyfan, os nad yn wir rhai oddi allan i'r eglwys, â gofal bugeiliol. Yn ail, cyfyngir y maes i 'bobl yn eu gofidiau' yn hytrach nag i bawb sy'n ymdrechu i dyfu tuag at aeddfedrwydd Cristnogol. Yn drydydd, cyfyngir y maes i 'weithredoedd o ofalu', sy'n awgrymu mai mater o *wneud*, o gyfieithu gwirioneddau'r ffydd i weithredoedd o dosturi yn unig yw diwinyddiaeth fugeiliol, heb fod lle i ystyriaeth ac adfyfyrdod. Yn wir, nid oes cyfeiriad o gwbl yn y diffiniad hwn at gynnwys Cristnogol, athrawiaethol y gwaith, sy'n codi'r cwestiwn ai *diwinyddiaeth* yw hyn o gwbl.

Cyfyngir diwinyddiaeth fugeiliol gan eraill i astudiaeth o *waith y weinidogaeth fugeiliol ordeiniedig*. Cymerer, fel enghraifft, ddiffiniad T.C. Oden: 'y gangen honno o ddiwinyddiaeth Gristnogol sy'n delio â swydd a gwaith bugail'.[11] Ond i fod yn deg ag Oden, fe â ymlaen i bwysleisio bod hyn yn cynnwys ystyriaeth 'o hunan-ddatguddiad Duw yn yr Ysgrythur, a gyfryngir trwy draddodiad, a astudir yn rhesymegol feirniadol, ac a ymgorfforir mewn profiad personol a chymdeithasol'. Ar sail egwyddorion beiblaidd ac athrawiaethol y mae Oden yn gosod ffrâm ddiwinyddol gadarn i'r dimensiwn bugeiliol, ond y mae'n tueddu i gyfyngu'r cyfan i swydd a gwaith y weinidogaeth ordeiniedig. Nid yw'n rhoi ystyriaeth i weinidogaeth leyg nag i fywyd a gwasanaeth yr eglwys gyfan.

Y duedd i gyfyngu diwinyddiaeth fugeiliol i *seicoleg fugeiliol* yw un o'r peryglon amlycaf yn y cyfnod hwn. Tuedd y mudiad gofal bugeiliol yng Ngogledd America yn y chwedegau a'r saithdegau oedd gwirioni'n llwyr ar seicoleg, ac y mae hynny'n tueddu i ddigwydd ym Mhrydain ar hyn o bryd. Rhaid cydnabod cyfraniad aruthrol seicoleg, ac yn arbennig gwaith Freud, Jung ac Adler i'n dirnadaeth o gyflwr mewnol, cymhellion ac ymddygiad pobl. Y mae gan Jung yn enwedig lawer iawn i'w ddysgu inni am iechyd enaid, ac am gymhlethdod yr hunan, sy'n ein galluogi nid yn unig i ddeall pobl eraill yn well, ond yr un mor bwysig i'r bugail Cristnogol, i'w ddeall ei hun. Bu diddordeb ym mherthynas seicoleg a gofal bugeiliol o'r dechrau cyntaf a datblygwyd dulliau o driniaeth therapiwtig, o seicotherapi ac o gwnsela, yn seiliedig ar ddamcaniaethau a dulliau Carl Rogers, Eric Berne ac Erich Fromm, yn arbennig felly yn yr Unol Daleithiau. Y mae'n hawdd deall poblogrwydd y datblygiad hwn. Y mae pwyslais a thechneg

seicoleg yn cynnig dulliau penodol o gynorthwyo pobl yn eu gofidiau a'u problemau. Ac y mae llawer iawn i'w ddysgu oddi wrth seicoleg am egwyddorion cwnsela effeithiol, am ddatblygiad personoliaeth, am gyflyrau emosiynol ac am sefydlu iawn berthynas â phobl. Yn ychwanegol at hynny, y mae hyfforddiant mewn dulliau o seicotherapi a chwnsela yn ychwanegu at gymhwyster a hyder y bugail mewn oes sy'n rhoi'r fath fri ar broffesiynoldeb. A rhaid cofio bod llawer iawn o leygwyr yn ogystal â phobl oddi allan i'r eglwysi yn derbyn rhywfaint o hyfforddiant yn y maes hwn i'w cymhwyso i fod o wasanaeth o fewn gwahanol fudiadau gwirfoddol. Ond wedi cydnabod hynny, rhaid gwylio'r perygl i egwyddorion a dulliau seicoleg fynd yn bwysicach na chynnwys ac arwyddocâd Cristnogol y gwaith. Er bod lle i seicoleg fugeiliol o fewn diwinyddiaeth fugeiliol, rhaid gwylio rhag i'r naill gymryd lle'r llall.

A dylid nodi un cyfyngiad arall, sef y duedd i ystyried diwinyddiaeth fugeiliol fel dim ond *un ymhlith llu o is-ganghennau diwinyddiaeth,* neu fel pwyslais, neu 'ysgol' arbennig, yn hytrach na disgyblaeth ddiwinyddol ynddi ei hun. Yn ystod y ganrif hon cafwyd nifer fawr o wahanol bwysleisiau, megis diwinyddiaeth argyfwng, diwinyddiaeth secwlar, diwinyddiaeth gobaith, diwinyddiaeth broses, diwinyddiaeth rhyddhad, diwinyddiaeth ffeministaidd, diwinyddiaeth ddu, ac un o'r diweddaraf, diwinyddiaeth werdd. Gogwydd, neu bwyslais, yn hytrach na changen o ddiwinyddiaeth yw pob un o'r rhain; rhai ohonynt yn ffasiynau dros dro, ac eraill yn ymgais i ymateb i sefyllfa neu i gyfnod arbennig. Ond y mae diwinyddiaeth fugeiliol yn fwy na gogwydd. Y mae ganddi ei thiriogaeth a'i chanllawiau unigryw ei hun, er ei bod yn tynnu o feysydd eraill, fel y mae holl feysydd astudiaethau diwinyddol yn ddibynnol ar ei gilydd ac yn gorgyffwrdd.

A derbyn bod rhaid osgoi'r tueddiadau hyn i gyfyngu ar ddiwinyddiaeth fugeiliol, naill ai i ofal am unigolion, neu i waith y weinidogaeth ordeiniedig, neu i seicoleg fugeiliol, neu i ogwydd arbennig, rhaid ceisio diffinio beth yw ei ffiniau, ei chynnwys a'i hamcanion. Dywedwyd eisoes mai diwinyddiaeth ymarferol yw diwinyddiaeth fugeiliol gyda'i phwyslais ar *praxis,* a'i maes arbennig yw gweinidogaethu i bobl o fewn yr eglwys a thrwy'r eglwys i'r gymdeithas. Y gair a ddefnyddiwyd ers y Diwygiad

Protestannaidd i ddisgrifio'r weinidogaeth arbennig hon yw *bugeilio.* Yn ei lyfr *Y Bugail* a gyhoeddwyd yn 1524, y mae Zwingli yn defnyddio'r gair *bugeilio* fel diffiniad o holl waith a chyfrifoldeb y bugail Cristnogol, nid bugeilio yn yr ystyr cyfyng o ymweld, cynghori, a gofalu am unigolion.[12] Y mae holl waith y bugail i'w ddeall a'i ddehongli fel *bugeilio.*

Yn y ganrif ddiwethaf yr oedd yn arferol ymdrin â bugeilio o dan dri phen: *homileteg,* sef pregethu, efengylu a chyfathrebu'r ffydd; *categeteg* neu'r *holwyddorol,* sef dysgu a hyfforddi yn y ffydd; a *poimeneg* (o'r gair Groeg am fugail, *poimen),* sef gofalu am y praidd trwy ymweld, cynghori, cysuro ac ati. Mantais y dosrannu hwn yw ei fod yn ceisio crynhoi holl waith gweinidogaethol yr eglwys o dan un pennawd a rhoi iddo un cyfeiriad a dehongliad. Anfantais y rhaniadau yw nad ydynt yn cynnwys elfennau eraill sy'n rhan o waith y weinidogaeth, megis arwain addoli, gweddi, a'r gwahanol fathau o waith a thystiolaeth gymdeithasol sydd erbyn hyn yn rhan o weinidogaeth yr eglwys i'r byd. Ond y mae hyn yn rhoi man cychwyn pwysig inni wrth osod ffiniau diwinyddiaeth fugeiliol – rhaid ceisio cynnwys o'i mewn yr holl agweddau ar weinidogaeth eglwys Iesu Grist i bobl yn y byd.

Mewn adwaith yn erbyn y gorbwyslais ar ofal bugeiliol, ar gwnsela a seicoleg, y mae rhai gweithiau diweddar wedi ceisio cywiro'r cydbwysedd trwy osod gofal bugeiliol o fewn cyd-destun gweinidogaeth gyflawn yr eglwys, yn hytrach na'i drafod fel un uned ar wahân.[13] Gan fod a wnelo holl agweddau'r weinidogaeth â bugeilio yn yr ystyr ehangaf, a phob un ohonynt i ryw fesur yn ymarferol, y maent nid yn unig yn cyffwrdd â'i gilydd ond hefyd yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd. Er mai prif amcan addoli yw gogoneddu Duw, y mae iddo hefyd effeithiau bugeiliol, sef dyfnhau'r profiad o ddirgelwch a'r sanctaidd a chyfryngu gras, maddeuant a chysur.[14] Ac y mae i bregethu a dysgu hefyd eu hamcanion bugeiliol, sef meithrin ffydd, adeiladu pobl fel unigolion ac fel cymdeithas, deffro'r gydwybod Gristnogol, a chyflwyno her y bywyd newydd yng Nghrist. Yn yr un modd, ni ellir pregethu'n effeithiol heb i'r pregethu hwnnw fod wedi ei wreiddio mewn gofal bugeiliol, yn codi allan o sefyllfaoedd dynol, ac yn llefaru wrth brofiadau, anghenion ac argyfyngau personol pobl. Amcan bugeiliol wedyn sydd i waith a thystiolaeth

gymdeithasol. Dywed Desmond Tutu, Allan Boesak a Helder Camara nad gweithredu fel gwleidyddion a wnânt wrth wrthwynebu polisïau llywodraethau gormesol, ond fel bugeiliaid, a chonsyrn ganddynt am anghenion bugeiliol pobl.

Y mae hyn yn ein harwain at un arall o ffiniau diwinyddiaeth fugeiliol: y mae nid yn unig yn cynnwys holl agweddau ar weinidogaeth yr eglwys fel y maent yn cyffwrdd ag anghenion pobl, ond ni ellir cyfyngu diwinyddiaeth fugeiliol i'r eglwys ei hun. Y mae'n ymestyn i'r gymdeithas oddi allan. Wedi'r cyfan, y mae gwreiddiau llawer o broblemau, anhapusrwydd ac argyfyngau pobl i'w canfod, nid ynddynt hwy eu hunain, ond yn eu hamgylchiadau cymdeithasol. Gall tlodi, gormes, ac anghyfiawnder cyfundrefn wleidyddol, fel yn Ne Affrica, achosi gofid personol dwfn i unigolion ac atal eu tyfiant a'u datblygiad tuag at fywyd llawn. Ac yn ein cymdeithas ein hunain y mae gwreiddiau llawer iawn o broblemau bugeiliol i'w canfod, nid yng nghalon yr unigolyn, ond yn ansawdd ac arferion y gymdeithas y mae'n rhan ohoni: alcoholiaeth, y camddefnydd o gyffuriau, y fasnach bornograffi, diweithdra, ac yn y blaen. Ac y mae i Gristnogion ymgyrchu yn erbyn drygau cymdeithasol a pholisïau gwleidyddol sy'n niweidio pobl a theuluoedd yn weithgarwch bugeiliol am mai consyrn am bobl a'u lles ysbrydol a chorfforol yw eu cymhelliad. Meddai Stephen Pattison, 'Rhaid i unrhyw ddiffiniad o ofal bugeiliol osgoi'r demtasiwn i'w chlymu ei hun i unigolyddiaeth. Rhaid i ofal bugeiliol fod yn ystwyth, yn amrywiol ac yn gallu ymateb ar wahanol lefelau bywyd yn ôl gofynion yr angen dynol'.[15]

Y mae un cwestiwn arall i'w ofyn wrth inni geisio disgrifio ffiniau diwinyddiaeth fugeiliol, sef *pwy yw'r bugeiliaid?* Ai gweinidogion ordeiniedig yn unig? Ai pobl wedi eu hyfforddi a'u cymhwyso ar gyfer y gwaith? Neu a yw pob Cristion yn *fugail* mewn rhyw ystyr? Yn sicr, y mae i'r gweinidog ordeiniedig le allweddol yng ngwaith bugeiliol yr eglwys. Bod yn fugail i'w bobl yw ei gyfrifoldeb pennaf, ac nid oes gwaith pwysicach o fewn gweinidogaeth yr eglwys na gofalu am braidd Duw – eu porthi, eu harwain, eu hymgeleddu a'u meithrin yn y ffydd. Yng ngoleuni'r dystiolaeth feiblaidd, y traddodiad Cristnogol (ac yn enwedig y traddodiad Protestannaidd), ac anghenion unigolion a chyn-

ulleidfaoedd heddiw, rhaid mynnu mai bugail yw'r gweinidog o flaen popeth arall. Ond nid yw hynny'n gyfystyr â dweud mai gweinidog ordeiniedig *yn unig* sy'n bugeilio. Gwaith yr eglwys gyfan yw cyflawni gweinidogaeth Crist, ac o fewn y weinidogaeth honno y mae amrywiol ddoniau. 'I bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist . . . A dyma'i roddion: rhai i fod yn apostolion, rhai yn broffwydi, rhai yn efengylwyr, rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i gymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth, i adeiladu corff Crist. Felly y cyrhaeddwn oll hyd at yr undod a berthyn i'r ffydd ac i adnabyddiaeth o Fab Duw. Y nod yw dynoliaeth lawn dwf, a'r mesur yw'r aeddfedrwydd sy'n perthyn i gyflawnder Crist.' (Effes. 4:7,11-13). Y mae geiriau Paul yn rhoi inni ddisgrifiad perffaith o'r hyn *yw* gwaith bugeiliol: 'cymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth'; ac o *amcan* y gwaith: 'dynoliaeth lawn dwf' ac 'aeddfedrwydd' Cristnogol. O fewn y weinidogaeth gyflawn ac amrywiol hon, y mae gan rai ddoniau arbennig sy'n eu cymhwyso i fugeilio eraill – dawn cyfeillachu, sensitifrwydd, amynedd, tosturi, doethineb, ac yn y blaen – ac y mae angen harneisio'u doniau a'u meithrin.

Yn ei lyfr *Healing the Hurt Mind,* y mae gan M. David Enoch bennod hynod ddiddorol yn disgrifio arbrawf mewn eglwys y bu'n aelod ohoni. Gofynnwyd iddo, fel aelod o'r eglwys ac fel seiciatrydd proffesiynol, i ymgymeryd â hyfforddi grŵp o aelodau eraill o'r gynulleidfa dros gyfnod o ddwy flynedd. Y canlyniad fu ffurfio Gwasanaeth Cwnsela Cristnogol a fu'n arbennig o effeithiol o fewn yr eglwys a'r gymdogaeth. 'Ni ddylid gadael gofal bugeiliol i glerigwyr yn unig', meddai. 'Dylai lleygwyr gymryd rhan ymarferol mewn gofal bugeiliol a chwnsela, a hynny nid oherwydd prinder gweinidogion . . . Fwyfwy dylai eglwysi asesu eu hanghenion a chanfod dulliau o hyfforddi grwpiau o'r fath'.[16] Un enghraifft yn unig yw hon o eglwys yn mynd ati i feithrin gweinidogaeth fugeiliol ymhlith ei phobl. Y mae llawer o'r gwaith hwn yn digwydd yn naturiol, fel y gwyddom, wrth i aelodau ymweld â'i gilydd, a chydymdeimlo â'i gilydd, a gwasanaethu a chynnal ei gilydd, ac wrth i lawer o aelodau eglwysig roi o'u hamser i weithio'n wirfoddol i fudiadau fel y Samariaid, y Cyngor Cyfarwyddo Priodasol, A.A., Cruse ac eraill.

O fewn y traddodiad Diwygiedig rhoddwyd lle erioed i leygwyr

mewn gwaith bugeiliol. Gwaith cyntaf a phwysicaf yr henadur neu'r blaenor yn nhrefn eglwysig Calfin oedd bugeilio. A dyna yw prif swyddogaeth blaenoriaid mewn rhai eglwysi, megis Eglwys yr Alban, o hyd, a darperir cyrsiau hyfforddi arbennig ar eu cyfer. Ond y ddelfryd yw creu ymdeimlad o gyfrifoldeb bugeiliol o fewn y gymuned Gristnogol gyfan: pobl yn gofalu am ei gilydd yng ngghariad Crist ac yn estyn y gofal hwnnw i'r gymdeithas oddi allan. Nid trespasu ar diriogaeth y gweinidog mo hyn, ac yn sicr nid rhoi esgus iddo laesu dwylo a gadael y gwaith i eraill. I'r gwrthwyneb, y mae'r gofal bugeiliol cymunedol hwn yn rhoi min a chyfeiriad i rôl y gweinidog fel yr un sy'n arwain ac yn ysbarduno'r gwaith.

Hyd yma y mae ein diffiniad o ddiwinyddiaeth fugeiliol wedi ceisio tynnu ffiniau'r maes:

1. Y mae a wnelo diwinyddiaeth fugeiliol â phob agwedd ar weinidogaeth yr eglwys ymhlith pobl: pregethu, addoli, efengylu, dysgu, gofalu, cynghori, ac yn y blaen, a hynny oherwydd fod cysylltiad annatod rhwng bob un o'r agweddau hyn.

2. Y mae a wnelo diwinyddiaeth fugeiliol â bugeiliaeth, nid yn unig o fewn yr eglwys, ond hefyd yn y gymdeithas, gan fod hyn yn rhan o genhadaeth pobl Dduw i'r byd. Ond hefyd am fod gwreiddiau llawer iawn o broblemau dynol i'w olrhain yn ôl i amgylchiadau cymdeithasol a gwleidyddol.

3. Y mae a wnelo diwinyddiaeth fugeiliol, nid yn unig â swydd a gwaith y bugail ordeiniedig, ond â'r dasg o ddatblygu potensial bugeiliol yr eglwys gyfan.

Ar un olwg, materion ymarferol yw'r rhain, ond materion ymarferol sy'n codi'n uniongyrchol o ystyriaethau diwinyddol. A'r tyndra creadigol hwn rhwng yr ymarferol a'r haniaethol, rhwng gweithredu ac adfyfyrio, yw curiad calon diwinyddiaeth fugeiliol. Ond wedi tynnu'r ffiniau a mesur hyd a lled y maes, rhaid troi yn awr i ystyried cynnwys ac amcanion y gwaith.

## 2.

# *Seiliau Athrawiaethol*

Os yw diwinyddiaeth fugeiliol yn bod yn y tyndra rhwng yr ymarferol a'r haniaethol, rhwng gweithredu a chredu, rhaid gofyn beth yw ei pherthynas â diwinyddiaeth athrawiaethol, â'r Beibl ac â chredoau'r ffydd? A ellir hawlio fod iddi 'seiliau' yn mhrif athrawiaethau Cristnogaeth? Os oes gwahaniaeth sylfaenol rhyngddi a gofal bugeiliol secwlar, onid yn y cynnwys a'r dehongliad athrawiaethol y mae canfod y gwahaniaeth hwnnw?

Nodwyd eisoes y rhesymau pam y mae dehongli gwaith bugeiliol mewn termau diwinyddol yn bwysig. Un ohonynt yw'r duedd i ddatblygu theorïau bugeiliol seicolegol a secwlar sy'n ein gorfodi fel Cristnogion i ystyried beth yw egwyddorion sylfaenol bugeilio Cristnogol. Gall y wybodaeth newydd a ddaw o seicoleg, seiciatreg ac athropoleg fod o gymorth amhrisiadwy inni yn ein dealltwriaeth o gymhlethdod y natur ddynol, ei chymhellion a'i dyheadau. Ar yr un pryd gall rhai damcaniaethau seicolegol ymddangos yn fygythiad i'r ddysgeidiaeth Gristnogol am ddyn ac am iachawdwriaeth. Gall dulliau a thechnegau newydd fod o gymorth i'r bugail Cristnogol yn ei waith. Ar yr un pryd rhaid sicrhau fod pob dull a thechneg yn gyson ag amcanion bugeilio Cristnogol.

Pwysleisiwyd y gwahaniaeth sylfaenol rhwng crefydd a seicoleg boblogaidd gan Paul C. Vitz, gŵr sydd ei hun yn seicolegwr proffesiynol, yn ei lyfr *Psychology as Religion: the cult of self-worship.*[17] Dywed mai prif amcan rhai mathau ar seicoleg yw canfod, datblygu a dyrchafu'r hunan, a bod hyn yn groes i'r gorchymyn Cristnogol i ymwadu â'r hunan. Yn yr awydd i ddarganfod yr hunan a'r gred mai o fewn yr hunan y mae canfod y potensial i wella pob gofid ac i ddatrys pob problem, y mae seicoleg mewn gwrthdrawiad ag athrawiaeth Gristnogol sy'n datgan mai oddi allan i ddyn, yng ngras Duw yn Iesu Grist, y mae canfod gwaredigaeth. Diwinyddion efengylaidd ceidwadol sydd wedi mynegi pryder ynglŷn â dylanwad seicoleg, gan fynnu bod rhai elfennau yn y dehongliad seicolegol yn groes i bob

dehongliad Cristnogol o'r cyflwr dynol. Yr amlycaf o'r beirniaid hyn yw'r Americanwr Jay Adams,[18] awdur mwy na deg ar hugain o lyfrau ar wahanol agweddau ar ddiwinyddiaeth ymarferol a bugeiliol, ond gŵr y mae cryn anghytuno ynglŷn â rhai agweddau ar ei waith, yn enwedig ei agwedd gwbl negyddol tuag at seicoleg a seiciatreg.

Y mae Derek Tidball, er yn geidwadol efengylaidd ei ddiwinyddiaeth, yn llawer mwy cymhedrol ei safbwynt. Tra'n cydnabod bod gan y bugail lawer i'w ddysgu oddi wrth ddamcaniaethau a dulliau seicolegol, y mae'n ymwybodol o'r perygl o wybodaeth arwynebol, anghyflawn, o seicoleg – yr hyn a eilw'n 'seicoleg bop'. Dywed mai cyfrifoldeb cyntaf y bugail Cristnogol yw bod yn feistr ar ei briod faes diwinyddol ei hun yn hytrach nag yn amatur mewn seicotherapi. Cyfeiria at yr agweddau hynny ar yr Efengyl sydd mewn gwrthdrawiad â damcaniaethau seicoleg boblogaidd – perthynas dyn â Duw, realrwydd pechod, maddeuant Duw yng Nghrist, athrawiaeth yr iawn, a'r angen am edifeirwch a ffydd.[19]

Bwriad Tidball ac eraill o'r un safbwynt ag ef yw ceisio canfod seiliau i ddiwinyddiaeth fugeiliol yn y Beibl ac o fewn athrawiaeth draddodiadol, nid er mwyn ymosod ar seicoleg a'i halltudio o'r maes, ond er mwyn plethu diwinyddiaeth fugeiliol i mewn i fframwaith y traddodiad athrawiaethol clasurol a deall ei pherthynas â chredoau canolog y ffydd – Duw, y greadigaeth, dyn, gwaith a pherson Crist, iachawdwriaeth, yr Ysbryd Glân, yr eglwys, y deyrnas a'r pethau diwethaf. Ac yn sicr fe ddylai'r gwirioneddau sylfaenol hyn gyfrannu at ein dealltwriaeth o ddiwinyddiaeth fugeiliol a'n galluogi i weld ystyr a chyfeiriad i'r gwaith ymarferol o fugeilio. Ac eto, y mae byd athrawiaeth draddodiadol yn ymddangos yn ddieithr ac amherthnasol wyneb yn wyneb â'r sefyllfa ddynol a'r dasg fugeiliol bob dydd. Mae athrawiaethau'r creu, y cwymp, yr ymgnawdoliad, y groes, yr atgyfodiad a'r esgyniad, fel petaent yn perthyn i hanes, i bobl ac i fyd gwahanol iawn i fyd ein profiadau a'n problemau ni. A dyna'n union paham y mae'n ofynnol ystyried y profiad ymarferol, dysgu oddi wrth y gwaith o fugeilio a cheisio deall yn y *praxis* ystyr ac arwyddocâd y datganiadau athrawiaethol. Rhaid wrth y gweithredu a'r credu, yr ymarfer a'r ystyried, ac o'r ddau gyfeiriad yma y cesglir yr offer ar gyfer y gwaith. Yn y gwaith a'r profiad ymarferol y deuir

i ddeall ymateb unigolion, eu cymhellion, eu hymddygiad, eu perthynas â'i gilydd o fewn grwpiau a'r gymdeithas ehangach. Ond o ystyried athrawiaethau'r ffydd yng ngoleuni'r profiad ymarferol y deuir i weld hefyd fod y Beibl a dehongliad credinwyr o'r ffydd yn taflu goleuni ar y sefyllfa ddynol ac ar ddilema oesol dyn.

Ond daw hyn â ni'n ôl eto at gyfraniad seicoleg, oherwydd os ydym i lunio fframwaith diwinyddol boddhaol ni allwn anwybyddu'r hyn sydd gan seicoleg i'w ddweud am batrymau o brofiad, am ymddygiad ac am ein dirnadaeth o Dduw. Er inni gydnabod y gall diwinyddiaeth a seicoleg fod mewn gwrthdrawiad ar adegau, rhaid cofio bod seicolegwyr eu hunain yn anghytuno'n ffyrnig â'i gilydd. Eto, y maent yn ein tywys at egwyddorion a damcaniaethau ag iddynt ymhlygiadau pwysig i ddiwinyddiaeth. Ni ellir ond cyfeirio'n fyr iawn at rai o'r damcaniaethau hyn. Un ohonynt yw'r pwyslais ar *undod corff ac enaid.* I Jung yr oedd cyflyrau enaid yn gallu penderfynu iechyd neu afiechyd corff a meddwl. Yn ei farn ef yr oedd iechyd person ynghlwm wrth ei deimladau, ei feddyliau a'i agwedd at bobl.[20] Erbyn hyn y mae pob cangen o feddygaeth yn cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor hon ac y mae'n egwyddor sylfaenol yn ein dehongliad Cristnogol o ddyn ac yn ein dealltwriaeth o waith bugeiliol.

Damcaniaeth bwysig arall yw *dylanwad y diymwybod (unconscious)* ar ddatblygiad personoliaeth ac ar batrymau o ymddygiad. Y mae teimladau, meddyliau, atgofion a chymhellion yr ydym yn ymwybodol ohonynt, yn eu cydnabod ac yn eu harddel. Ond y mae hefyd deimladau, meddyliau a chymhellion sy'n codi o'r diymwybod. Yn ôl Freud a Jung, trwy freuddwydion y mae cael mynediad i fyd y diymwybod – 'y ffordd frenhinol i'r diymwybod', chwedl Freud – a cheir enghreifftiau yn y Beibl o ddehongli breuddwydion a gweledigaethau. Y mae llawer o ragfarnau, o syniadau a phatrymau o ymddygiad yn codi, nid o ymwybod rhesymegol cyfrifol, ond o'r diymwybod, a'r diymwybod hwnnw'n cynnwys dylanwadau personol a ebargofiwyd gennym a hefyd diymwybod yr hil, sef patrymau o ymddygiad yn ymestyn yn ôl i orffennol pell yr hil. Mae cydnabod hyn yn codi llu o gwestiynau eithriadol bwysig i ddiwinyddiaeth fugeiliol ynglŷn â natur dyn a'i berthynas â'i fywyd mewnol ei hun yn ogystal â'i berthynas â'i orffennol a'i amgylchfyd.

Ac y mae hyn yn ein harwain at nifer o ddamcaniaethau seicolegol yn ymwneud â'r *hunan.* Yn ôl rhai seicolegwyr prif achos afiechyd enaid yw rhwyg rhwng yr ymwybod a'r diymwybod, ac un o amodau iachâd yw adnabod yr hunan – dwyn i'r ymwybod gynnwys y diymwybod a'i gydnabod a'i gyffesu – cam anodd a phoenus i'w gymryd, yn gofyn am gymorth seicotherapydd neu gyfarwyddwr ysbrydol, ond hwn yw'r cam cyntaf i gyfeiriad adferiad. Yn ôl Jung y mae'r cyfannu a'r iacháu yn digwydd yn y broses hon o ddarganfod y gwir hunan. Beth yw arwyddocâd hyn i ddiwinyddiaeth fugeiliol? A yw seicoleg yn sôn am yr un peth ag a eilw diwinyddion yr *imago dei* (delw Duw ynom), neu 'Crist ynof fi' chwedl Paul, neu 'sail a gwreiddyn ein bod' Paul Tillich?

Ychydig enghreifftiau yw'r rhain, wedi eu hamlinellu'n fyr ac yn arwynebol, ond y maent yn dangos fod gan seicoleg bethau pwysig i'w dweud o fyd profiad ac ymarfer sy'n berthnasol i ddiwinyddiaeth. Oherwydd hyn y mae rhai awduron wedi ceisio llunio dehongliad diwinyddol o waith bugeiliol o fewn modelau sy'n addas i gysyniadau seicolegol yn ogystal ag argyhoeddiadau athrawiaethol. Er enghraifft, yn ei lyfr *Pastoral Theology: An Inquiry,* dywed David Deeks mai diwinyddiaeth fugeiliol yw'r ymgais i ganfod ystyr i fywyd.[21] Dim mwy a dim llai. Golyga hynny gyfranogi ymhob ymchwil a phob trafodaeth i ddeall ein hunain, ein diwylliant a'n cymdeithas a'r berthynas rhyngddynt. Y mae a wnelo diwinyddiaeth fugeiliol â stori ein bywyd – ein gwaith, ein diddordebau, ein problemau, ein dychymyg, ein teimladau, ac o ganlyniad, ein celfyddyd, ein gwyddoniaeth a'n hanes. Ein deunydd crai yw realiti bywyd bob dydd: bodau dynol heb, o angenrheidrwydd, unrhyw gred yn Nuw, yn ymateb i bob her a darganfyddiad, yn ceisio gwerthoedd a phwrpas i'w bodolaeth ac yn myfyrio ar ryfeddod y berthynas rhyngddynt a'i gilydd ac â'r byd o'u cwmpas. Ond yn y broses yn dod yn ymwybodol o ddirgelwch, o rym creadigol, o'r gallu i newid pethau er gwell, ac i gyfoethogi bywyd ei gilydd. Deall a dehongli'r profiadau hyn yw tasg diwinyddiaeth fugeiliol, hyd yn oed os nad oes sôn am Dduw, na Christ, na chredo. Oherwydd i'r mwyafrif o bobl sy'n gynnyrch y broses secwlareiddio, nid oes mwy i'w ddweud. Os oes unrhyw ymwybyddiaeth grefyddol yn parhau ganddynt, nid yw

ond megis golau ar gefn trên yn diflannu o'r golwg yn nuwch y twnel ar noson dywyll.[22]

Ond gan fod y diwinydd yn gweithio ar y dybiaeth fod Duw yn bod ac mai cred yn Nuw a rydd i fywyd ymdeimlad o werth ac o bwrpas, y mae dwy wedd i'w dasg ddiwinyddol. Yn y lle cyntaf, y mae'n ceisio dehongli'r arwyddion o werth a phwrpas sydd i'w canfod ym mhrofiadau beunyddiol pobl. Ac yn yr ail le, y mae'n ceisio cyfeirio pobl at y traddodiad o ffydd a thrwy hynny codi pont rhwng bywyd ac athrawiaeth. Ac ym mywyd a pherson Iesu o Nasareth yn benodol y gwelir y bont rhwng profiad a ffydd, rhwng Duw a dyn, rhwng y gorffennol a'r presennol. Fe â David Deeks ymlaen i ddatblygu ei ddiwinyddiaeth fugeiliol trwy ddefnyddio'r model o *daith.* Y mae'n *daith tuag i mewn,* sef ystyried ystyr ac arwyddocâd ein teimladau a'n profiadau personol dyfnaf, ein nwydau, ein dyheadau, dirgelwch y ffin rhwng yr ymwybod a'r diymwybod, y dyhead am gariad, a'r darganfyddiad o'r Duw sydd ynom. Y mae hefyd yn *daith tuag ymlaen,* sef datblygu tuag at aeddfedrwydd trwy brofiadau, yn enwedig y profiadau chwerw megis profedigaeth a cholled; tyfu trwy wahanol gyfnodau bywyd a thrwy wneud penderfyniadau a dewisiadau anodd. Ac yna, y mae'n *daith tuag allan,* sef tyfu yn ein perthynas â phobl eraill, â chyfeillion, anwyliaid, cymdogion, yr anghenus; darganfod cymdeithas, gwerth y grŵp ac ystyr bywyd yn yr eglwys.[23]

Fel y dywed teitl ei lyfr, ymchwiliad *(inquiry),* yn hytrach na dehongliad diwinyddol gorffenedig, cyflawn yw gwaith David Deeks, ond y mae'n ymchwiliad diddorol a chyffrous. Saif ar y ffin rhwng y byd a'r eglwys, (ac ar y ffin honno y cyflawnir y dasg fugeiliol), ac y mae'n dewis llefaru wrth y byd. Ei fwriad yw cynnig dehongliad diwinyddol o'r dasg fugeiliol mewn termau ystyrlon i bobl oddi allan i'r eglwys sy'n chwilio am ystyr a phwrpas i fodolaeth ynghanol gwewyr a phroblemau byw, yn ogystal ag i Gristnogion wrth iddynt geisio deall eu gwaith o fugeilio a gwasanaethu yn enw Crist. Amlinelliad o ddiwinyddiaeth fugeiliol mewn termau cenhadol a geir ganddo a gobeithio y gwelir datblygu ei ymchwiliad yn astudiaeth lawnach maes o law. Ond er mor werthfawr a diddorol yw gwaith Deeks, nid yw'n gwreiddio'i ddiwinyddiaeth fugeiliol o fewn athrawiaeth Gristnogol

glasurol. Y mae fel petae ar ffiniau'r traddodiad o ffydd a hynny, y mae'n bur debyg, yn gwbl fwriadol am mai'r ffin yw'r lle pwysig i fod. Yno yr enillir, neu y collir y frwydr; yno y mae pobl yn byw eu bywyd; yno y mae Duw ac yno hefyd y profir dilysrwydd cred ac athrawiaeth Gristnogol. Yng ngoleuni'r profiad dynol y mae deall y traddodiad, ond ar yr un pryd cynnwys y traddodiad sy'n rhoi cynnwys ac ystyr i'r gwaith. Gwyddom y gall iaith a chysyniadau athrawiaethol traddodiadol swnio'n ddieithr ac yn anghyfarwydd ynghanol bywyd a phrofiadau bob dydd. Ar yr un pryd y mae'r bugail sy'n brysur yn ei weinidogaeth a'i waith bugeiliol yn canfod yn fuan iawn yr angen am seiliau a chanllawiau diwinyddol i'w waith. Hebddynt pa werth sydd i'r unigolion y mae'n eu gwasanaethu? Sut y mae i'w uniaethu'i hun â hwy? Beth yw'r ystyriaethau a'r cwestiynau tyngedfennol sy'n codi o'u profiadau a'u problemau? Sut mae dehongli eu bywyd a'u profiadau yng nghyd-destun y ffydd a gynrychiolir ganddo?

Os yw'r bugail yn ymgodymu â'r cwestiynau sylfaenol hyn yn ei waith bugeiliol, rhaid i unrhyw fodel athrawiaethol a fabwysiadwn ar gyfer diwinyddiaeth fugeiliol fod yn seiliedig ar hanfodion y ffydd – ar ddatguddiad Duw ohono'i hun yn Iesu Grist ac yng ngweithredoedd achubol yr ymgnawdoliad, y groes a'r atgyfodiad. Nid mater o chwilio am iaith newydd i gymryd lle'r hen mo hyn, nac o gefnu ar athrawiaeth er mwyn gosod seicoleg yn ei lle. Yn hytrach rhaid gofyn pa elfennau yn athrawiaethau sylfaenol y traddodiad Cristnogol sy'n rhoi sylfaen a chyfeiriad i waith bugeiliol Cristnogol?

Y mae a wnelo'r efengyl â iechydwriaeth, sef dwyn pobl i ganfod cyfanrwydd *(wholeness)*, cymod, iechyd a rhyddhad, yn eu perthynas â Duw, â chyd-ddyn, â'u hamgylchiadau, ac o fewn cymhlethdod eu bywyd personol. Patrwm, ffynhonnell a chyfrwng y cyfanrwydd hwn yw Iesu Grist. Yn ei waith ef yn dod yn un â'r ddynoliaeth frau, bechadurus yn yr ymgnawdoliad; yn ein rhyddhau o bopeth sy'n ein darostwng a'n llethu ac yn ein cymodi â Duw ac â'n cyd-ddyn yn y groes a'r iawn, ac yn ein codi o afael pechod, angau ac anobaith i fywyd newydd yn yr atgyfodiad, mynegir a chyfryngir iechydwriaeth fel gwaith Duw drosom yn ei Fab. Gwaith athrawiaeth Gristnogol yw dehongli'r gweithred-oedd achubol hyn, nid yn unig fel digwyddiadau hanesyddol, ond

fel egwyddorion tragwyddol, ac fel profiadau cyfoes, ac y mae gan ddiwinyddiaeth fugeiliol gyfraniad pwysig i'r gwaith hwn. Sail diwinyddiaeth fugeiliol yw'r argyhoeddiad fod y weithred hanesyddol, (y groes, dyweder), hefyd yn wirionedd tragwyddol, sydd hefyd yn dod i weithrediad ym mywyd a phrofiad unigolion yn y presennol. Heb y cyswllt 'gweithredol' hwn rhwng y digwyddiad, yr egwyddor a'r profiad, nid oes sail athrawiaethol i waith bugeiliol, mwy nag i bregethu, cenhadu, addoli, neu unrhyw wedd arall ar waith yr eglwys sy'n ceisio cyfryngu'r hanesyddol-tragwyddol i fywyd a phrofiad pobl heddiw.

Cyfrol ddiweddar yn ymdrin â'r cyswllt rhwng gwaith bugeiliol a seiliau clasurol athrawiaeth yw *The Pastor as Theologian* gan Wesley Carr, un o'r cyfrolau diweddaraf yn y gyfres *New Library of Pastoral Care* (SPCK).[24] Cyfeiria ef at yr ymgnawdoliad, y groes, a'r atgyfodiad a'r creu, fel tri *chlasur* athrawiaeth a gwêl hwynt fel modelau addas ar gyfer deall a dehongli diwinyddiaeth fugeiliol: yr ymgnawdoliad fel model o *berthynas,* yr iawn fel model o *gymod,* a'r atgyfodiad a'r creu fel model o *obaith.* Y mae'n dadlau bod sefydlu perthynas â phobl, eu harwain i brofiad o gymod, a thrwy hynny eu tywys i obaith a bywyd llawnach, yn ffactorau canolog mewn gofal bugeiliol ac mai yn yr ymgnawdoliad, y groes a'r bedd gwag y mae'r modelau athrawiaethol mwyaf addas i seilio'r ffactorau hyn arnynt. Nid yw'n gwbl glir beth yn union a olyga wrth y termau *clasur* a *model* yn y cyswllt hwn a cheir yr argraff mai fel patrymau symbolaidd o brofiad yn hytrach na fel digwyddiadau hanesyddol a gwirioneddau tragwyddol y gwêl werth a phwysigrwydd yr athrawiaethau. Gall hyn fod yn gamargraff llwyr. Yn sicr y mae Carr yn cynnig fframwaith athrawiaethol sy'n gosod gofal bugeiliol o fewn cyd-destun hanfodion yr efengyl ac yn ei wreiddio mewn athrawiaeth Gristnogol.

Y mae'n werth amlinellu'n fras arwyddocâd modelau'r *ymgnawdoliad, y groes* a'r *atgyfodiad* fel seiliau diwinyddiaeth fugeiliol. Yr *ymgnawdoliad* yw canolbwynt athrawiaeth Gristnogol: y gred fod Duw wedi sefydlu perthynas achubol â'r ddynoliaeth trwy ddod yn un â ni mewn cnawd yn Iesu Grist. Ef yw'r Emaniwel, 'Duw gyda ni'. Man cychwyn iechydwriaeth yw *perthynas,* uno, cysylltu, dwyn ynghyd. Y mae Duw a Christ, y Tad a'r Mab, y Gair a'r cnawd, Duw a dyn, Duw a'r byd, a dyn a dyn, wedi eu cysylltu yn yr

ymgnawdoliad. Y mae'r athrawiaeth hon yn ein cyfeirio at gwestiynau dyfnaf y ffydd – i'r berthynas o fewn y Duwdod, y berthynas rhwng Duw a dyn ym mherson Crist a dadleuon Chalcedon, rhwng Duw a'r byd a phroblemau rhagluniaeth ac ymwneud Duw â'i fyd, a rhwng dyn a dyn, sef rhwng y dyn Iesu ac unigolion, sy'n arwain i gwestiynau am natur eglwys, perthynas Cristnogion â'i gilydd a'u cyfrifoldeb at eu cyd-ddynion. Ond nid pynciau haniaethol diwinyddol yw'r rhain yn unig. Y maent yn ymwneud â'r modd y mae pobl yn dod i gyswllt â'i gilydd o ddydd i ddydd, natur ac amodau perthynas, a phwysigrwydd perthynas fel cyfrwng gras rhwng Duw a dyn. Mewn geiriau eraill, y mae a wnelo ymgnawdoliad â gwaith beunyddiol y weinidogaeth fugeiliol, â gweddi ac ysbrydoledd ac â dysgu amynedd, maddeuant, tosturi a synnwyr cyffredin.

Dengys Wesley Carr fel y mae'r ymgnawdoliad yn ein cynorthwyo i ddeall dirgelwch a grym achubol perthynas a chyhudda Gristnogion o siarad yn llac am gariad a gofal heb ymdrechu i ddeall dynamig y berthynas sy'n ganolog i'r efengyl.[25] Yng ngoleuni'r ymgnawdoliad, amodau perthynas yw gostyngeiddrwydd (sef y parodrwydd i gael ein cyfyngu a'n darostwng), uniaethu ag eraill, trafod a chyd-ddeall, a hynny'n esgor ar gyfeillgarwch, gobaith a gwaredigaeth. Mae derbyn cyfyngiadau yn amod pob perthynas. Ni chawn ymddwyn fel y mynnwn a chyfyngir ar ein rhyddid, ein hamser a'n syniadau yn y broses o ddeall a chlosio at eraill. Rheswm Paul dros drafod gostyngeiddrwydd Iesu Grist yn yr ymgnawdoliad (yn Philipiaid 2, 1-11), yw cynnig model o'r gostyngeiddrwydd sy'n angenrheidiol os yw Cristnogion i fod mewn iawn berthynas â'i gilydd ac â'u cyd-ddynion. Hanfod y gostyngeiddrwydd hwn oedd i Grist ei wacáu ei hun 'gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd dynion'.[26] Y mae'r cyfyngu hwn yn gwbl angenrheidiol er mwyn cyflawni amod arall sydd ymhlyg ymhob perthynas, sef uniaethu ag eraill. Yn yr ymgnawdoliad y mae Duw nid yn unig yn dod yn agos ond yn gwneud ei hun yn archolladwy: 'gan fod yn ufudd hyd angau'.[27] Nid oes ystyr mewn sôn am uniaethu ag eraill heb ddeall fod hyn yn golygu parodrwydd i'n gwneud ein hunain yn archolladwy. 'Y meddyg archolledig'[28] yw Iesu Grist ac ni ellir bugeilio heb fod yn barod i ymgodymu â'r math o berthynas a all ein clwyfo.

Rhaid wrth y gostyngeiddrwydd, y cyfyngu a'r uniaethu costus, er mwyn meithrin trafod, cyd-ddeall a chyfeillgarwch. Nid oes perthynas heb siarad, sgwrsio, trafod, gwrando, rhannu a dadlau. Yn yr efengylau gwelir y berthynas rhwng Crist a Duw yn yr hanesion amdano'n encilio i'r mynydd i weddïo, a'r berthynas rhyngddo a phobl yn y gwahanol sefyllfaoedd o wrando a siarad, dysgu a cheryddu, dadlau ac ateb cwestiynau. Yn yr un modd y mae'r berthynas sy'n ganolog i waith bugeiliol yn ddibynnol ar siarad a chyd-ddeall, rhyngom a Duw, rhyngom a'n gilydd, ac yn aml rhyngom a'n hunain – rhwng yr hyn ydym a'r hyn y dylem, neu y dymunem fod. I'r perwyl hwn y mae techneg cwnsela o gymorth, sef dysgu gwrando, sylwi a holi'n sensitif ac yn y blaen, yn ogystal â'r hyn a ddywed seicoleg am ailgyfeirio *(transference)* – elfen allweddol ymhob cyd-daro dynol, yn enwedig rhwng therapydd a chlaf neu rhwng bugail a'r sawl y mae'n ymwneud ag ef.

Y cwestiwn sylfaenol yw'r modd y mae Duw yn gweithredu trwy'r berthynas hon, oherwydd Duw yr ymgnawdoliad ydyw. Yn y cyswllt â Christ – y Gair yn gnawd – daeth i berthynas weithredol, achubol â'r ddynoliaeth, â'r byd ac â phob un ohonom yn ein perthynas â'n gilydd ac â'n hunain. Mewn gwaith bugeiliol, nid digon yw dweud ein bod 'gyda' phobl yn eu gwahanol brofiadau. Gall bugail deimlo'n aneffeithiol ac yn fethiant mewn rhai sefyllfaoedd bugeiliol anodd – wrth weinidogaethu i bobl mewn argyfyngau a phrofedigaethau mawr – a dywedir yn aml mai ei gyfrifoldeb yw bod 'gyda' phobl heb iddo ddweud na gwneud dim. Ond y mae hynny'n anfoddhaol. Nid yw'n cynnig unrhyw reswm pam y dylai fod yno, na pham y dylai ef fod yno'n fwy na neb arall. Y mae neges yr ymgnawdoliad yn mynd ymhellach ac yn datgan fod Duw, yn ei berthynas â ni, yn cyfyngu arno'i hun i ddod yn un â ni, i blygu at ein gwendid ni, i wrando, i lefaru, i garu ac i ddioddef. Ond daw'r berthynas yn gyfrwng gobaith, goleuni a gwaredigaeth. Felly, yn ôl yr un model, y mae gofal bugeiliol yn seiliedig ar berthynas â Duw ac â phobl yn Nuw sy'n ein galluogi nid yn unig i fod 'gyda' hwy (i blygu atynt ac uniaethu â hwy) ond i fod yn gyfrwng cyfeillgarwch, gobaith a chymorth. Ac y mae seicoleg hefyd yn cadarnhau fod perthynas o'r fath yn gyfrwng iacháu a chyfannu.

Yn athrawiaeth y *groes a'r iawn* ceir model o *faddeuant a chymod* mewn gofal bugeiliol. Y groes yw symbol canolog Cristnogaeth, ffocws ymgysegriad, addoli, ffydd a defosiwn am mai'r groes yn fwy na dim arall sy'n cyhoeddi bod Duw yn derbyn, yn caru, yn maddau ac yn cymodi'r byd ag ef ei hun. Ac eto athrawiaeth y groes yw'r fwyaf aneglur o holl athrawiaethau'r ffydd a'r un na roddwyd diffiniad terfynol ohoni erioed. Y mae'r rheswm am hynny'n ddigon amlwg. Ni ellir disgrifio'r groes a'i hystyr ond mewn termau amwys a chyferbyniol: fel darostyngiad ac fel buddugoliaeth, fel methiant a llwyddiant, fel colled ac ennill, fel diwedd a dechrau. Awr methiant truenus a darostyngiad yw awr iechydwriaeth a choncwest. Dros y canrifoedd cafwyd nifer o wahanol ddamcaniaethau ynglŷn ag athrawiaeth yr iawn ond ni fabwysiadwyd yr un ohonynt fel dehongliad swyddogol yr eglwys. Yn y canrifoedd cynnar ceisiwyd dehongli'r groes yn nhermau buddugoliaeth – *Christus Victor,* y Crist a gafodd fuddugoliaeth ar holl bwerau'r fall trwy roi ei hun yn bridwerth dros y ddynoliaeth. Yn y Canol Oesoedd cafwyd damcaniaeth Anselm o'r groes fel iawn a delir i gyfarfod â gofynion y ddeddf a thrwy hynny'n bodloni'r Tad. Mewn cyferbyniad cafwyd pwyslais Abelard ar y groes fel mynegiant o gariad Duw yn llifo fel afon o angau Crist i gyfeiriad pechaduriaid i'w golchi a'u meddiannu ac i fywhau ynddynt hwythau gariad at Grist. Thema aberth sydd wedi cael sylw yng ngweithiau diwinyddion cyfoes gyda phwyslais ar y groes fel y mynegiant o Dduw yn cyd-ddioddef â'i greadigaeth ac yn ei uniaethu ei hun yng Nghrist â thrallod ac anobaith eithaf dynolryw, i'r pwynt o Grist yn blymio'r tywyllwch ysbrydol eithaf a chael ei amddifadu o Dduw ei hun. Yr unig obaith am waredigaeth yn wyneb erchyllterau'r ganrif hon yw'r argyhoeddiad fod Duw ei hun yn cymryd gofid a gwae y byd ato'i hun yn aberth ei Fab.

Nid yw'r un o'r damcaniaethau hyn yn gwbl foddhaol i fynegi holl agweddau athrawiaeth yr iawn nac i egluro'r modd y mae'r groes yn achub ac yn dwyn iechydwriaeth i gyrraedd dyn. Ond er gwaethaf pob methiant i ddehongli ystyr y groes, eto pan yw'r groes yn dod yn ffocws myfyrdod, ffydd, dychymyg ac ymddiriedaeth, daw yn fyw a gweithredol ym mywydau pobl a gwelir ei heffeithiau mewn profiad o faddeuant, o waredigaeth a newid

calon. Er mai tasg diwinyddiaeth yw ceisio cynnig esboniad rhesymegol o ystyr ac arwyddocâd y groes, y mae'n gynhenid i athrawiaeth yr iawn ei bod yn anesboniadwy ac na ellir ei mynegi'n foddhaol o fewn unrhyw un diffiniad cynhwysfawr. Gan mai yn nhermau profiad yn hytrach na rhesymeg y mae deall y groes, daw ei hystyr a'i grym i'r amlwg mewn sefyllfaoedd bugeiliol, yn enwedig mewn perthynas â'r elfennau hynny yn y profiad dynol sy'n cyfateb i ddigwyddiadau'r croeshoeliad – dioddefaint, marwolaeth, pechod ac euogrwydd.

Dioddefaint yw un o broblemau mwyaf crefydd, boed yn ddioddefaint unigol neu'n ddioddefaint ar raddfa byd: y Holocaust, Hiroshima, newyn, daeargrynfeydd neu ormes gwleidyddol. Y mae dioddefaint naill ai'n wadiad o Dduw, neu'n ffenestr yn agor ar Dduw. Yn y groes y gwelir dioddefaint fel ffenestr. Drwyddi y mae byd mewnol Duw yn tynnu ato'i hun yr hyn sydd oddi allan iddo, sef holl erchylltra dioddefaint a drygioni'r byd. Ar yr un pryd y mae'r groes yn agor byd mewnol Duw i'r rhai sydd wedi eu caethiwo gan ddioddefaint ac anobaith y sefyllfa ddynol. Yn y groes gwelwn Dduw yn derbyn byd erchyll pechod a phoen yn eiddo iddo'i hun ac yn cymryd ei le ochr yn ochr â'i greaduriaid yn eu gofidiau. Nid syniad cysurlon o Dduw gyda ni ynghanol poenau bywyd yn unig mo hyn; y mae iddo wedd greadigol ac ymarferol. Os yw Duw yn derbyn byd dioddefaint i mewn i'w fyd mewnol ei hun, y mae hefyd yn ei ddarostwng ac yn ei ddefnyddio i gyflawni ei ddibenion ei hun, fel bod drygioni yn esgor ar ddaioni a dioddefaint yn dyrchafu. Dyna a ddigwyddodd ar Galfaria ac y mae arwyddocâd hyn i waith bugeiliol yn amlwg.

Y mae athrawiaeth y groes yn rhoi ffenestr inni drwyddi ddehongli dioddefaint ym mhrofiadau personol pobl, ond y mae dioddefaint ynghlwm wrth broblem drygioni, pechod ac euogrwydd. Y mae hon yn broblem fugeiliol arall y gellir ei dehongli gan fodel y groes o faddeuant a chymod. Fel y mae seicotherapi yn mynnu mai amod iachâd yw adnabod yr hunan a chodi i'r ymwybod y teimladau a'r meddyliau dinistriol hynny sy'n creu euogrwydd ynom, eu cydnabod a'u rhannu o fewn perthynas faddeugar, yn yr un modd y mae Cristnogaeth erioed wedi rhoi lle pwysig i gyffes o bechod ac i ryddid o euogrwydd

ar sail addewid o ollyngdod a maddeuant. Ym model y groes gwelir pechod ac euogrwydd dyn o fewn patrwm gweithgarwch grasol Duw. Sail athrawiaeth y groes yw rhyddid – rhyddid dyn i ddewis ac i fyw yn gyfrifol, a'r camddefnydd o'r rhyddid hwnnw yn arwain at ymddygiad anghyfrifol, hunanol sy'n achosi dioddefaint a dinistr. Y mae'r euogrwydd sy'n codi o'n methiant a'n cywilydd yn ein caethiwo ac yn ein hamddifadu o'r rhyddid a roddodd Duw inni. Unwaith eto y mae'r groes yn cynnig model o'r modd y mae maddeuant a chymod yn gweithredu. Er i ddyn gamddefnyddio'i ryddid ac ymagweddu'n anghyfrifol ac anghyfiawn yn y croeshoeliad, eto y mae Iesu Grist yn derbyn yr atgasedd, y creulondeb, y trallod a'r unigrwydd i'w gorff ei hun ac yn datgan trugaredd a maddeuant diamod a diderfyn Duw. Hynny yw, y mae Duw ei hun yn derbyn y gost o ryddid dynol er mwyn inni gael cyfle newydd, yn rhydd o euogrwydd a methiant, i ymarfer ein rhyddid yn adeiladol ac i'w ddibenion ef. Yn fugeiliol, y mae rhyddhad oddi wrth bechod ac euogrwydd i'w ganfod o wynebu a derbyn ein beiau a'n pechodau fel canlyniad camddefnyddio'r rhyddid a roddodd Duw inni, a medru gwneud hynny o wybod bod Duw yn ein derbyn mewn maddeuant ac yn rhoi cyfle newydd, drachefn a thrachefn, i arfer ein rhyddid yn adeiladol a chreadigol, yn hytrach nag yn anghyfrifol a dinistriol.

Un o amcanion gwaith bugeiliol Cristnogol yw cynorthwyo pobl i oresgyn argyfyngau a phroblemau a thyfu tuag at aeddfedrwydd y bywyd newydd yng Nghrist. Yn y Testament Newydd y mae'r bywyd newydd ynghlwm wrth yr *atgyfodiad* a gwelir atgyfodiad Crist, nid yn unig fel digwyddiad hanesyddol penodol, ond fel profiad sydd o fewn cyrraedd dyn yn y presennol, a hefyd fel gobaith am yr hyn sydd eto i ddod. O ganlyniad, y mae clasur yr atgyfodiad yn fodel o *egni bywyd newydd* mewn diwinyddiaeth fugeiliol. Wrth drafod yr atgyfodiad yr ydym yn ymwneud â digwyddiad ac argyhoeddiad sydd y tu draw i resymeg ac i ymddygiad dynol arferol. Bu cryn ddadlau ai digwyddiad hanesyddol, ai symbol o obaith dynol, ai ynteu profiad personol mewnol yw'r atgyfodiad yn ei hanfod. Y mae hanes, symbol a phrofiad yn elfennau hanfodol y mae'n rhaid eu cadw mewn cydbwysedd gan eu bod yn ein cyfeirio at y tri dimensiwn sydd i'r atgyfodiad: y digwyddiad hanesyddol unigryw, sef atgyfodiad Iesu Grist ar y trydydd

dydd, y bedd gwag a'r ymddangosiadau i'r disgyblion; y symbol o'r gobaith eschatolegol, sef atygfodiad y meirw a'r addewid y bydd i'r saint rannu ym muddugoliaeth eu Harglwydd ar angau a'r bedd, a'r profiad personol, sef grym y bywyd newydd yn dyrchafu dyn o afael popeth a fynn ei lethu a'i ddarostwng, megis pryder, ofn, amheuaeth a phechod. Y mae'r cyswllt dynamig rhwng yr hanesyddol, yr eschatolegol a'r cyfoes yn nodweddu pob athrawiaeth Gristnogol – y digwyddiad hanesyddol yn fynegiant o wirionedd tragwyddol yn dod, trwy ffydd, yn brofiad cyfoes ym mywyd dyn. Y profiad cyfoes o atgyfodiad yw cyfranogi ym mywyd Crist; 'Crist ynof fi' yn ôl Paul – y bywyd atgyfodedig yn meddiannu'n bywyd ni ac yn ei ddyrchafu. O fewn diwinyddiaeth fugeiliol y mae'r bugail Cristnogol yn cyhoeddi ac yn cynnig i eraill obaith ac egni'r bywyd newydd hwn.

Sonia Jung am y bersonoliaeth fwy sydd i'w chanfod yn eigion yr hunan. Yn ôl rhai, y mae hyn yn cyfateb i fywyd Crist ynom, y *logos* mewnol neu'r *imago dei.* Ni fynnwn wadu hynny, ond y mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng y therapydd secwlar sydd yn ceisio cynorthwyo pobl mewn trallod ac argyfwng i ddod i dermau â'u profiadau ac i ganfod ynddynt eu hunain adnoddau i ddelio â'u problem, a'r bugail Cristnogol sy'n cynrychioli ac yn cynnig egni'r bywyd newydd yng Nghrist. Mae'r bugail yntau yn ceisio cynorthwyo pobl i ddod i dermau â'u profiadau, ond y mae'n gwneud hynny trwy dywys pobl i ganfod perspectif gwahanol ar eu bywyd a'u harwain at ffynhonnell yr egni dwyfol a all drawsffurfio eu hymateb i ofynion a phroblemau bywyd. Mewn iaith ddiwinyddol, golyga hyn dröedigaeth; os nad tröedigaeth lawn at Grist a'r bywyd Cristnogol, y dröedigaeth a ddaw o weld eu bywyd eu hunain, eu perthynas ag eraill, a'u lle yn y byd, yng nghyd-destun Duw a'r adnoddau ysbrydol sydd ar eu cyfer yn Nuw.

Yr hyn y ceisiwyd ei wneud hyd yma oedd canfod modelau addas o fewn athrawiaethau canolog y ffydd i seilio diwinyddiaeth fugeiliol arnynt. Y mae athrawiaethau'r ymgnawdoliad, y groes a'r atgyfodiad yn benthyg eu hunain i ddehongliad diwinyddol o waith bugeiliol gan fod sefydlu perthynas â phobl, maddeuant a chymod, ac egni bywyd newydd, yn elfennau amlwg yn y dasg fugeiliol. Ond nid llunio diwinyddiaeth haniaethol yn unig yw ein tasg. Rhaid troi nesaf i ystyried yr amcanion.

3.

# *Amcanion Bugeiliol*

O wreiddio diwinyddiaeth fugeiliol yn athrawiaethau'r efengyl y mae'n dilyn mai prif amcan gofal bugeiliol yw cyfryngu'r efengyl i fywydau unigolion. Ond rhaid diffinio'r amcan yn fanylach na hynny. Gellir dehongli 'cyfryngu'r efengyl' mewn nifer o wahanol ffyrdd. I Eduard Thurneysen dull o achub eneidiau yw gofal bugeiliol. Dywed fod pregethu'n ddull o gyhoeddi'r efengyl i gynulleidfa gyda'r bwriad o ennyn ymateb i Grist, tra fo'r berthynas fugeiliol yn ceisio ennyn ymateb yn uniongyrchol oddi wrth unigolyn: 'Cyfathrebu i'r unigolyn yn benodol y neges a gyhoeddir yn gyffredinol (h.y. i bawb) yn y bregeth i'r gynulleidfa'.[29] Ond yn ôl Alastair Campbell yr un yw amcan gofal bugeiliol ag amcan gweinidogaeth gyfan yr eglwys i'r byd, sef hybu cariad rhwng pobl a'i gilydd a rhwng pobl a Duw: 'Yn ei hanfod y mae gofal bugeiliol yn rhyfeddol o syml. Y mae iddo un amcan sylfaenol: i gynorthwyo pobl i ganfod cariad fel rhywbeth i'w dderbyn a rhywbeth i'w roi'.[30]Er y gwahaniaeth pwyslais rhwng Thurneysen a Campbell y mae angen y naill fel y llall o fewn dehongliad llawn o ystyr 'cyfryngu'r efengyl'. Yn sicr y mae Campbell yn gwbl gywir yn cysylltu gofal bugeiliol â gweinidogaeth gyfan yr eglwys, leyg ac ordeiniedig, sef dysgu, pregethu, addoli, cenhadu a gwasanaethu. Y mae'r agweddau hyn i gyd yn gorgyffwrdd a'r un yw eu hamcan, sef cyhoeddi a mynegi'r efengyl.

Y mae Stephen Pattison yn cymeradwyo diffiniad Campbell ond yn miniogi rhywfaint arno trwy ychwanegu mai amcan gofal bugeiliol yw dileu a lliniaru pechod a thristwch gyda'r bwriad o dywys pobl at yr aeddfedrwydd sydd yng Nghrist.[31] Y mae'n cyfiawnhau ei ddiffiniad ar sail y Testament Newydd, y traddodiad hanesyddol o fugeilio eneidiau o fewn yr eglwys, a datblygiadau diweddar ym maes gofal a chwnsela. Thema gyffredin a welir yn rhedeg trwy amrywiaeth ffurfiau gweinidogaeth yr eglwys yw'r frwydr yn erbyn pechod a thristwch ym mywydau personol pobl ac yn y gymdeithas.[32] Ond nid tasg negyddol yw hon gan mai

amcan y frwydr yn erbyn elfennau dieflig a dinistriol yw arwain pobl at lawnder bywyd yng Nghrist: 'gan rybuddio pob dyn ym mhob doethineb, er mwyn cyflwyno pob dyn yn aeddfed yng Nghrist' (Colosiaid 1:28).

Y ddelwedd feiblaidd sy'n cyfuno'r amcanion hyn ac yn eu cyplysu o fewn darlun cyfarwydd a phatrwm cyson yw'r ddelwedd o'r *bugail*. Er gwaethaf cysylltiadau anffodus y gair i'n hoes fodern (y cyfeiriwyd atynt uchod), y mae'r ddelwedd hon o gymorth i ddiffinio amcanion gofal bugeiliol. Seward Hiltner, y diwinydd Americanaidd, a ddatblygodd y ddelwedd i bwrpas diwinyddiaeth fugeiliol yn ei lyfrau *Pastoral Counselling, Preface to Pastoral Theology* a *The Christian Shepherd*.[33] Er iddo roi lle amlwg i seicoleg a'r gwyddorau secwlar, llwyddodd Hiltner i dywys astudiaethau bugeiliol yn yr Unol Daleithiau yn ôl at eu gwreiddiau a'u cyd-destun beiblaidd. Dadleuodd mai camgymeriad oedd uniaethu'r darlun beiblaidd o'r bugail yn benodol â'r gweinidog ordeiniedig yn unig. Perspectif ar waith yr eglwys gyfan yw bugeilio. Golyga hyn fod i holl waith y gweinidog a'r gynulleidfa berspectif fugeiliol. Nid un o dasgau'r gweinidog ymhlith nifer o dasgau eraill megis arwain addoli, pregethu, dysgu, gweinyddu, efengylu ac ati, yw bugeilio. Dylai'r gweinidog a'r gynulleidfa fedru gweld pob agwedd o'u gwaith fel eglwys o berspectif fugeiliol. 'Y mae ystyried bugeilio fel perspectif yn ein galluogi i feddwl am fugeilio fel ymateb, fel agwedd meddwl, fel gogwydd nad yw byth yn absennol o feddwl y bugail ond sydd ymhlyg yn ei holl deimladau a'i weithgareddu'.[34]

Gan fod lle mor amlwg yn yr Hen Destament ac yn nysgeidiaeth Iesu i'r ddelwedd o'r bugail dylai fod yn ganolog i'n dehongliad ninnau o'r dasg fugeiliol ac o gymwysterau'r bugail. Tynerwch, gofal, gwroldeb a hunanaberth yw nodweddion y bugail da yn y Beibl a'r priodoleddau hyn a ddefnyddir i fynegi arweiniad a gofal Duw a'r Meseia disgwyliedig. Y mae'r bugail yn tywys, yn amddiffyn, yn porthi ac yn iacháu ei braidd gwasgaredig, yn ceisio'r colledig ac yn eu harwain i borfeydd gwelltog. Defnyddir y ddelwedd fynychaf yn y Salmau, Jeremeia, Eseciel a'r Ail Eseia. Yn Eseia 40 darlunir tynerwch y bugail wrth arwain ei braidd: 'Y mae'n porthi ei braidd fel bugail, ac â'i fraich yn eu casglu ynghyd; y mae'n cludo'r ŵyn yn ei gôl, ac yn coleddu'r mamogiaid'.

(Eseia 40:11). Yn Eseciel y mae gofal y bugail yn cynnwys y ddawn i adfer ac i iacháu:' 'Byddaf yn ceisio'r ddafad golledig ac yn dychwelyd y wasgaredig; byddaf yn rhwymo'r ddolurus ac yn cryfhau'r wan' (Eseciel 34:16).

Ond nid tynerwch meddal, sentimental yw eiddo'r bugail. Rhaid iddo wrth wroldeb a pharodrwydd i frwydro, i ddioddef ac i roi ei fywyd dros ei braidd. Y mae marwolaeth y bugail meseianaidd yn Sechareia yn foddion puredigaeth y bobl: '. . . edrychant ar yr un a drywanwyd ganddynt, a galaru amdano fel am unig-anedig, ac wylo amdano fel am gyntaf-anedig' (Sechareia 12:10).[35] Pwysleisia Alastair Campbell fod yr elfen hon o wroldeb ac o ddioddefaint wedi ei hesgeuluso yn ein syniadau cyfoes am natur gwaith bugeiliol. Bywyd caled oedd bywyd y bugail dwyreiniol yn galw am wrhydri a pharodrwydd i fentro wrth arwain ei braidd trwy leoedd geirwon, peryglus ac wrth eu hamddiffyn rhag anifeiliaid rheibus. Dywed fod disgrifiad Dafydd ohono'i hun yn ymladd â'r llew a'r blaidd (1 Samuel 17:34-37) yn ddarlun o'r bugail fel ffigur tebycach i gowboi yn y *Wild West* nag i'r darluniau dychmygol, sentimental a welir fynychaf mewn llawlyfrau Ysgol Sul ac ar waliau'r festri! Dywed Campbell fod angen adfer y pwyslais hwn ar wroldeb yn ein dehongliad o'r dasg fugeiliol.[36] Gŵyr pob un sydd wedi ceisio rhannu ym mhoenau, colledion a phrofedigaethau eraill fod angen dewrder i fentro i ddrycin eu teimladau briw ac i ymbalfalu gyda hwy yn nhywyllwch eu hanobaith. Y mae caru a gofalu yn fusnes costus, poenus a diflas ar adegau. Gall glyn cysgodion person arall fod yn lle brawychus a rhaid wrth wroldeb gwironeddol i fentro iddo.

Daw'r elfen ddioddefus, hunan-aberthol â ni yn agos at y ddelwedd fugeiliol yn y Testament Newydd, yn enwedig mewn perthynas â bywyd, dysgeidiaeth a marwolaeth Iesu. Disgrifir consyrn Duw am yr unigolyn sydd ar goll yn nameg y ddafad golledig (Mathew 18:12-14; Luc 15:4-7), fel amddiffyniad Iesu o'i ofal ef am y gwan, y gwrthodedig a'r pechadurus. Dehonglir marwolaeth Iesu yn nhermau dioddefaint y bugail meseianaidd yn yr Hen Destament (Mathew 26:31; Marc 14:27). Ac yn Ioan 10 Iesu yw'r Bugail Da sy'n rhoi ei einioes dros y defaid. A'r un ddelwedd o aberth ac arweiniad a ddefnyddir yn Llyfr y Datguddiad i ddisgrifio buddugoliaeth y merthyron a arweinir

i ddiogelwch gan yr oen sydd hefyd yn fugail: '. . . bydd yr Oen sydd yng nghanol yr Orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd' (Datguddiad 7:17).

Er mwyn amddiffyn, iacháu a phorthi ei braidd, y mae'n ofynnol hefyd i'r bugail eu harwain – eu tywys i borfeydd brasach ac i leoedd diogelach, a hynny eto'n galw am wroldeb, egni a dycnwch. Oherwydd cysylltiadau'r ddelwedd fugeiliol ag arweinyddiaeth nid yw'n syndod i'r gair 'bugail' ddod yn derm i ddynodi arweinydd cynulleidfa neu swyddog eglwysig, er mai yn anaml y digwydd hynny yn y Testament Newydd. Unwaith yn unig y defnyddir yr enw 'bugail' i ddisgrifio swydd yn yr eglwys (Effesiaid 4:11). Ym mhob cyfeiriad arall defnyddir y ferf 'bugeilio' i ddynodi un wedd ar waith arweinwyr Cristnogol. Er enghraifft, anogir henuriaid yr eglwys yn 1 Pedr 5:2-4 fel a ganlyn: 'Bugeiliwch braidd Duw sydd yn eich gofal, nid dan orfod, ond o'ch gwirfodd yn ôl ffordd Duw; nid er mwyn elw anonest, ond o eiddgarwch, nid fel rhai sy'n tra-arglwyddiaethu ar y rhai a osodwyd dan eu gofal, ond gan fod yn esiamplau i'ch praidd. A phan ymddengys y Pen Bugail, fe gewch eich coroni â thorch gogoniant, nad yw byth yn gwywo'. Y mae cyflawni'r gwaith yn bwysicach na theitl na chydnabyddiaeth, a hanfod y gwaith yw bugeilio yn yr ystyr o ofalu, arwain, dysgu ac amddiffyn. Gellid dadlau bod pwyslais Hiltner ar y perspectif fugeiliol yn gwbl gyson â thystiolaeth y Testament Newydd. Perspectif ar holl waith yr eglwys a gyflawnir gan arweinwyr ac aelodau fel ei gilydd yw bugeilio. Fel y pwysleisiodd Luther offeiriadaeth yr holl gredinwyr, rhaid pwysleisio'n ogystal 'bugeiliaeth yr holl gredinwyr'. Crist yw Bugail mawr y defaid a pharhad yr eglwys o un wedd ar ei weinidogaeth ef yw gofal bugeiliol.

Dengys yr amlinelliad hwn pa mor gyfoethog yw'r ddelwedd feiblaidd o'r bugail a pha mor hanfodol yw'r amodau a'r cymwysterau angenrheidiol i barhau bugeiliaeth Crist trwy ei eglwys. Nid yw'r darlun poblogaidd arferol o nodweddion bugeilio – sensitifrwydd, cariad, gofal, gostyngeiddrwydd a chydymdeimlad – yn ddigonol ynddynt eu hunain. Yng ngoleuni'r darlun beiblaidd y mae cymwysterau angenrheidiol eraill, megis gwroldeb, cryfder, dycnwch, menter a'r parodrwydd i ddioddef. O'r llu o enghreifftiau a geir yn yr efengylau o Iesu yn ymwneud â phobl,

y mae ei wroldeb yn nodwedd amlwg yn yr hanes: cyffwrdd â gwahangleifion, cyfeillachu â phechaduriaid a phublicanod, derbyn dagrau a chusanau putain, wynebu tyrfa gynddeiriog a herio'r awdurdodau crefyddol. Gwelir hefyd ei barodrwydd i ddioddef wrth rannu beichiau eraill, wrth ymwrthod â chysuron cartref a theulu, wrth ymgodymu ag anwadalwch a diffyg deall ei ddisgyblion, ac wrth wynebu gwewyr Gethsemane ac ingoedd y groes. Nod ac amcan y cyfan yng ngwaith bugeiliol Iesu oedd mynegi cariad drudfawr Duw tuag at ei blant.

Y mae cyfoeth y portread beiblaidd nid yn unig yn ein herio i gywiro'n darlun gorsyml o Iesu'r bugail mwyn, ond yn ein cywilyddio o ystyried pa mor wan ac annigonol yw ein delweddau cyfoes o waith bugeiliol yn yr eglwys ac mewn mudiadau secwlar. Pwyswn yn drwm ar gefnogaeth eraill a chwiliwn am werthfawrogiad o'n gwaith; gwnawn ein gorau glas i blesio, chwenychwn ganmoliaeth a phoblogrwydd a cheisiwn osgoi'r sefyllfaoedd a'r argyfyngau a all olygu gwneud penderfyniadau anodd, amhoblogaidd, a gwneud safiad ar egwyddor. Ac mewn cylchoedd secwlar sy'n rhoi bri ar ddulliau cwnsela ffasiynol a'r dechneg seicolegol ddiweddaraf, y nod yw bod yn drefnus a phroffesiynol effeithiol ac osgoi sefyllfaoedd a all fod yn drafferthus a chostus. O ganlyniad, ymddengys y bugail Cristnogol diddrwg didda a'r cwnselwr secwlar amhersonol fel ei gilydd ym mhell iawn oddi wrth fugail dewr, mentrus, dioddefus y Beibl.

Y mae'r amodau beiblaidd hyn yn gofyn ein bod yn cadw'r ddwy ochr i'r darlun mewn cydbwysedd. Y mae'n rhaid wrth dynerwch, ond tynerwch sydd hefyd yn gryf. Rhaid wrth sensitifrwydd, ond y sensitifrwydd sy'n barod i weithredu'n wrol ac anhunanol pan fo galw am hynny. Rhaid wrth ofal cariadus, ond y mae pob gwir ofalu yn gostus, yn gofyn amynedd, dycnwch a'r parodrwydd i ddwyn beichiau, i rannu poen ac i golli dagrau. Felly, pa mor hen ffasiwn bynnag ar ymddengys y ddelwedd o'r bugail i'n hoes ni a pha mor bell bynnag yw ein diwylliant cyfoes o fyd moel, cyntefig bugail dwyreiniol y Beibl, o ddeall arwyddocâd llawn y ddelwedd gyfoethog hon, anodd iawn yw canfod gwell patrwm o natur gofal bugeiliol a'r amodau angenrheidiol i'w gyflawni. Ac yn ychwanegol at amodau'r gwaith, y mae'r darlun beiblaidd yn ein cynorthwyo i ddeall ei *amcanion*. Gwaith y bugail oedd arwain,

amddiffyn, porthi, iacháu, ymgeleddu a chynnal ei braidd. Y mae rhai o'r termau hyn yn gorgyffwrdd ac yn agweddau ar yr un dasg, ond o'u plith gellir nodi tri sy'n cynrychioli prif amcanion gofal bugeiliol, sef *iacháu, cynnal* ac *arwain.* A gellir crynhoi diffiniad Pattison, y cyfeiriwyd ato uchod, o dan y tri phennawd yma: 'dileu a lliniaru pechod a thristwch gyda'r bwriad o dywys pobl at yr aeddfedrwydd sydd yng Nghrist'.

Prif amcanion y bugail Cristnogol yn ei ymwneud â phobl wrth fugeilio, ymweld a chwnsela, yw eu cynorthwyo i ganfod *iechyd,* yn yr ystyr o gyfanrwydd, yn enwedig mewn adegau o afiechyd, gofid ac anhapusrwydd; eu cynorthwyo i *ymgynnal* mewn argyfyngau megis profedigaeth, siom, unigrwydd ac argyfwng ffydd, a'u *harwain* yn eu bywyd Cristnogol unigol tuag at yr aeddfedrwydd sydd yng Nghrist ac yn eu bywyd fel eglwys a chynulleidfa yn eu haddoliad, eu cenhadaeth a'u tystiolaeth yn y byd. Ac er bod gan y bugail unigol gyfrifoldeb arbennig mewn perthynas â'r amcanion hyn, ni all eu cyflawni'n effeithiol heb gefnogaeth a chyfraniad bugeiliaeth yr holl gredinwyr. Mewn termau Cristnogol, nid yw cyfanrwydd yng Nghrist i'w ganfod ond oddi mewn i gymdeithas ac mewn perthynas ag eraill o fewn corff Crist. Yn yr un modd, er pwysiced cyfraniad un person, boed yn gyfaill, yn gymydog neu'n fugail, y mae angen cymdeithas i gynorthwyo pobl i ymgynnal. A chan mai mewn perthynas ag eraill y datblygir aeddfedrwydd, ni ellir arwain neb tuag at aeddfedrwydd yn y bywyd Cristnogol ar wahân i gymdeithas â Christ ac â chyd-ddyn yng Nghrist o fewn ei eglwys. Felly, amcanion gofal bugeiliol yr holl gredinwyr a pherspectif ar holl waith yr eglwys yw iacháu, cynnal ac arwain. Amhosibl yw trafod ystyr ac arwyddocâd yr amcanion hyn yn eu perthynas â gofal bugeiliol yn llawn o fewn ychydig baragraffau a rhaid bodloni ar nodi'r prif bwyntiau yn unig.

Daeth y gair *iacháu,* yn yr ystyr o geisio cyfanrwydd bywyd, yn gyffredin iawn, nid yn unig mewn astudiaethau bugeiliol, ond mewn diwinyddiaeth yn gyffredinol. Cydnabyddir bod i iechyd yn yr ystyr ehangaf berthynas agos â *iechydwriaeth* yn ei ystyr gwreiddiol o helaethrwydd, cyflawnder, llesâd a rhyddhad oddi wrth bob peth sy'n llethu a darostwng person. Ar yr un pryd cydnabyddir o fewn meddygaeth unoliaeth y person dynol, a

bellach ystyrir corff, meddwl, ysbryd ac enaid yn agweddau ar berson yn hytrach nag adrannau penodol ohono, a phob un agwedd yn effeithio ar gyflwr yr agweddau eraill ac yn arwain at iechyd neu afiechyd. O ganlyniad golyga iacháu fwy na meddyginiaeth neu wellhad oddi wrth anhwylder neu salwch corfforol, er y gall gynnwys hynny. Golyga fwy nag adfer cyflwr corfforol neu feddyliol person i'r hyn a fu cyn ymosodiad afiechyd arno. Yn hytrach, golyga canfod cydbwysedd iach rhwng y corfforol, y meddyliol a'r ysbrydol oddi mewn i berson: harmoni rhyngddo a'i amgylchiadau ac â phobl eraill; iawn berthynas rhyngddo a'r ddaear a'r amgylchfyd; cymod rhyngddo â Duw, ffynhonnell a sail ei fodolaeth. Dyna yw'r bywyd crwn, cyfan. Mynegir y cyfanrwydd iach hwn sy'n deillio o ansawdd ein bywyd mewnol, ein hamgylchiadau a'n perthynas â Duw, yn y syniad Hebreig o *shalôm* – tuag i mewn â ni ein hunain, tuag allan ag eraill, tuag i lawr â'r ddaear, tuag i fyny â Duw.[37]

Lle cynt yr ystyriwyd 'y weinidogaeth iacháu' fel rhywbeth ychydig yn od ac amheus ar gyrion bywyd yr eglwys, tiriogaeth y rhai oedd yn ymhél â iacháu trwy ffydd, arddodi dwylo ac eneinio cleifion, erbyn hyn gwelir y weinidogaeth iacháu fel un wedd ar waith a thystiolaeth yr eglwys yn gweithredu a chyhoeddi iechydwriaeth. Ac un mynegiant pwysig o'r weinidogaeth hon yw gofal bugeiliol.

Y mae Denis Duncan yn ei lyfr *Health and Healing: A Ministry to Wholeness*[38] yn mynnu bod ystyr arbennig i iacháu o fewn cyd-destun y ffydd Gristnogol, a thra'n rhybuddio yn erbyn balchder ysbrydol a phob tuedd i ddilorni cyfraniad crefyddau eraill, dywed mai yng ngras Duw yn Iesu Grist y canfyddir cyflawnder bywyd. Trwy holl waith a gweddi'r eglwys (gan gynnwys gofal bugeiliol), a thrwy rym yr Ysbryd Glân, try addewid Duw o iechydwriaeth/iachâd/cyfanrwydd trwy Grist yn egni ym mywyd a phrofiad pobl, yn puro, yn adfer, yn cymodi ac yn cyfannu. 'I'r eglwys, y weinidogaeth iacháu yw'r cynnig i bobl o'r cyfanrwydd hwnnw na all neb ond yr eglwys, yn rhinwedd ei natur, ei hargyhoeddiad a'r grym a addawyd iddi, yn cynrychioli Iesu, ei roi'.[39] Sonia Duncan am y *spectrwm* iacháu, sef yr holl elfennau sy'n cyfrannu at iechyd a chyfanrwydd: meddygaeth, seicoleg a seiciatreg, meddygaeth amgen (sef y pwyslais ar yr holistig a'r iawn

ddefnydd o'r amgylchfyd), celfyddyd (yn enwedig cerddoriaeth), perthynas iach ag eraill, ac ordinhadau penodol yr eglwys (gweddi, arddodi dwylo ac ati). Gweithreda egni iacháu trwy'r cyfryngau hyn i gyd.

Er y gall gofal bugeiliol Cristnogol gynnwys elfennau meddygol, seicolegol, holistig a chelfyddydol (a rhaid bod yn barod i ddysgu oddi wrth bob cyfrwng a phob disgyblaeth), ei brif gyfryngau yw perthynas â phobl ac ordinhadau ysbrydol. Cyfeiriwyd eisoes, wrth drafod ystyr yr ymgnawdoliad, at gynnwys a nodweddion y berthynas fugeiliol ac amlinellwyd yr amodau hynny a all wneud perthynas yn gyfrwng iachâd. Nid trwy garlamu i ganol problemau wedi'n harfogi â cynghorion buddiol a meddyginiaethau ysbrydol i'w gwasgaru ym mysg y clwyfus a'r trallodus y mae bod yn gyfryngau iacháu, ond trwy sefydlu'r fath berthynas sy'n galluogi person i rannu gofidiau, i brofi cwmnïaeth a chonsyrn diffuant, ac i ymdeimlo â chariad Duw yn gweithredu trwy'r berthynas. Nid cymwysterau, na gallu, na hyd yn oed duwioldeb y bugail, sy'n gwneud y berthynas yn foddion iacháu, ond ei barodrwydd i rannu poen, i ymagor i ofid, i wrando, i deimlo, i lefaru ac i weddïo fel y bo'r galw – i fod yn wan a diymadferth wrth blymio dryswch a thrallod eraill. Ond trwy wendid a diymadferthedd y mae gallu Duw yn gweithredu. Y Crist dioddefus yw'r meddyg. 'Trwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd' (Eseia 53:5). Meddai Shillito yn ei gerdd *Jesus of the Scars:*

*The other gods were strong but*
*Thou wast weak;*
*They rode, but Thou didst stagger*
*to a throne.*
*But to our wounds only God's*
*wounds can speak,*
*And not a god has wounds but*
*Thou alone.*[40]

Profiad poenus yw sefyll rhwng clwyfau Crist a chlwyfau corfforol, emosiynol ac ysbrydol pobl. Ond amcan gofal bugeiliol yw dwyn iachâd i eraill trwy geisio bod yn ddolen gyswllt rhwng clwyfau y rhai yr ydym yn eu bugeilio a chlwyfau Crist y Meddyg mawr.

Yr ail amcan yw *cynnal.* Y mae perthynas agos rhwng cynnal ac

iacháu. Fe all y gwaith o gynnal fod yn gam tuag at iachâd. Cyn cael adferiad, ac yn y broses o adfeddiannu *shalom* a chyfanrwydd, gall person ddioddef cyfnod hir o drallod ac ing meddwl. Yr enghraifft amlycaf yw profedigaeth, pan nad yw'n bosibl adfer y sefyllfa a fodolai cyn marwolaeth y sawl a gollwyd; neu dorpriodas, pan nad oes gobaith cymodi ac adfer y berthynas a fu. Mewn profiadau fel y rhain ceir cyfnodau hir cyn i berson trallodus ganfod iachâd ac adferiad, os o gwbl. Yn y cyfamser amcan gofal bugeiliol yw cynnal, er na ddylid cau allan o unrhyw sefyllfa, pa mor drallodus a diobaith bynnag yr ymddengys, y posibilrwydd o iachâd.

Ystyr 'cynnal' yn y cyswllt hwn yw 'sefyll gyda' pherson arall, ei galonogi a bod yn gefn iddo yn ei argyfwng. Gall hynny ynddo'i hun fod o gymorth uniongyrchol mewn rhai sefyllfaoedd; er enghraifft, cynnal person sy'n gwneud safiad ar fater o egwyddor, neu sydd dan straen oherwydd gofynion gwaith neu amgylchiadau teuluol. Gall sefyllfaoedd o'r fath fod yn boenus ac yn niweidiol i hyder person ac i'w berthynas ag eraill, yn enwedig â'i deulu a'i anwyliaid, a dylai bugail a chymdeithas eglwys fod yn foddion cynhaliaeth iddo.

Ond mewn profiad o golled, trwy brofedigaeth dyweder, neu dorpriodas, neu afiechyd nad oes tebygrwydd o wellhad ohono, y mae yn ymateb y dioddefwr elfennau o sioc ac o ddychryn yn arwain at dristwch, anobaith, unigrwydd llethol, chwerwedd ac argyfwng ffydd. Y mae'n hanfodol bwysig i'r bugail ddeall y gwahanol elfennau hyn a gwybod sut i adweithio iddynt. Ar adegau fe all gael ei hun yn darged i sioc, chwerwedd ac amheuaeth, a rhaid iddo fodloni derbyn yr ergydion yn dawel gan wybod mai camau ydynt yn y broses o alaru. Wrth i berson fynd trwy'r camau hyn y mae medru pwyso ar gyfeillgarwch tawel (hyd yn oed i'r graddau o fwrw ergydion ato), o fwy o gymorth na chysuron llafar ystrydebol. Dyna un o'r adegau pan yw gofal bugeiliol yn galw am wroldeb a'r parodrwydd i dderbyn cleisiau. Wedi i'r storm ostegu fe fydd cyfle i siarad, i drafod y profiad, i blymio i'w ddyfnderoedd ac i rannu cysuron.

Yn y cyswllt hwn rhaid cywiro un camargraff, sef y syniad mai y bugail ei hun yw'r sawl sy'n cynnal – ei fod ef yn gadarn a diysgog tra bo'r dioddefwr yn wan a dinerth; bod yr hwn sydd

â chadernid ganddo yn rhoi o'i gadernid i'r sawl sydd ei angen. Ond nid dyna yw cynnal yn yr ystyr bugeiliol. Nid yw'r bugail o angenrheidrwydd fymryn cryfach, yn wir gall fod yn wannach. Nid trwy roi o'i gryfder ei hun y mae'n cynnal, ond trwy gynorthwyo'r dioddefwr i ganfod a datblygu ei adnoddau mewnol ei hun, i ganfod Duw yng nghanol gwewyr ei brofiad ac i bwyso ar yr adnoddau sydd ynddo ef. Y mae unrhyw berthynas fugeiliol sy'n arwain at orddibyniaeth ar y bugail ei hun, i'r graddau iddo ddod yn fagl i bwyso arni, neu'n waeth fyth, yn eilun i'w edmygu, yn fethiant ac yn beryglus. Pascal a ddywedodd y gallai'r offeiriad gymryd lle Crist yn serchiadau ei bobl. Nid dysgu ymgynnal a wna person mewn perthynas o'r fath, ond mynd i bwyso fwyfwy ar arall a mynd yn llwyr ddibynnol arno. O ddysgu tynnu ar ei adnoddau mewnol ac ar ras Duw yn Iesu Grist y mae dioddefwr yn canfod nerth, a'r dasg fugeiliol yw ei gynorthwyo i ganfod y ffynonellau hyn.

Gellir crynhoi trydydd amcan gofal bugeiliol o dan y pennawd *arwain*. Am nifer o flynyddoedd bu'r prif bwyslais mewn gofal bugeiliol ar gynorthwyo pobl i ganfod cymorth a swcwr ac i ddelio ag argyfyngau emosiynol ac ysbrydol. Bu'r ffocws ar yr unigolyn, ei broblemau a'i deimladau. Erbyn hyn gwelir arwyddion o bwyslais newydd, neu yn hytrach ar ailddarganfod un o amcanion traddodiadol gofal bugeiliol Cristnogol, sef 'tywys pobl at yr aeddfedrwydd sydd yng Nghrist Iesu'.[41] Am ganrifoedd lawer yr oedd a wnelo bugeilio'n bennaf â chynorthwyo pobl i dyfu yn y ffydd, i orchfygu pechod a themtasiwn, i feithrin y bywyd ysbrydol ac i ddiogelu purdeb yr eglwys. Mewn gair, yr oedd bugeilio'n gyfystyr â 'disgyblaeth'. Prif ddiben ymweld â chartrefi oedd arolygu bywyd moesol ac ysbrydol aelodau'r eglwys ac archwilio cyflwr eu heneidiau. Yr oedd y bugail yn gyfuniad o athro, sant a phlismon. Yr oedd i'w waith ochr negyddol yn ogystal â chadarnhaol. Ei ddyletswydd oedd rhybuddio'r gweiniaid, ceryddu'r drwgweithredwyr, gosod penydau i'r edifeiriol a diarddel pechaduriaid.[42] Ond er gwaethaf y wedd negyddol (a chreulon a rhagrithiol ar adegau), yr oedd i ddisgyblaeth amcan adeiladol, sef dysgu a chyfarwyddo unigolion a meithrin a grymuso bywyd a thystiolaeth yr eglwys.

Byddai unrhyw awgrym o ddychwelyd at yr hen arfer o ddisgyblu

yn gwbl annerbyniol yn yr oes sydd ohoni. Ond wrth ymwrthod â dulliau disgyblaeth, fe gollwyd golwg ar ei hamcan yn ogystal. Heddiw cawn ddiwinyddion bugeiliol yn ailbwysleisio'r angen i gyfeirio gofal bugeiliol oddi wrth ei gonsyrn am broblemau unigolion yn unig at y dasg o adeiladu Cristnogion yn y ffydd a grymuso bywyd yr eglwys.[43] Y mae nifer o resymau am y pwyslais newydd hwn. Gan fod yr eglwys bellach yn lleiafrif o fewn cymdeithas secwlar y mae rheidrwydd arni i ddarganfod ei hunaniaeth fel cymdeithas o gredinwyr ac i fynegi hanfod a phatrwm y bywyd Cristnogol. Y mae galw am ailddarganfod pwysigrwydd y gynulleidfa a bywyd cymunedol yr eglwys a meithrin credinwyr yn y ffydd, nid yn unig er mwyn eu lles personol, ond er grymuso'r gymdeithas. Y mae tasg genhadol yr eglwys hefyd yn galw am fagu Cristnogion aeddfed, argyhoeddedig ac ymroddedig i dystio i Grist ac i wasanaethu eraill yn ei enw. Angen arall yw cynorthwyo Cristnogion i ganfod safonau a gwerthoedd moesol i'w galluogi i wynebu her cymdeithas oddefol nad yw bellach yn arddel gwerthoedd Cristnogol. Ac y mae galw am gymorth i bobl aeddfedu'n ysbrydol, dysgu gweddïo a meithrin duwioldeb. Ac y mae a wnelo gofal bugeiliol â phob un o'r tasgau hyn.

O bosib nad yw'r gair 'arwain' yn cyfleu'n foddhaol y gwaith o adeiladu yn y ffydd ac o dywys pobl i aeddfedrwydd Cristnogol. Ac eto y mae'n air mwy priodol na 'hyfforddi' neu 'gyfarwyddo', sy'n awgrymu arbenigwr neu ryw ffigur arall o awdurdod yn dysgu'r anwybodus o'i stôr o wybodaeth a doethineb. O gofio mai perspectif ar holl waith yr eglwys a'r weinidogaeth yw gofal bugeiliol, y mae cyfraniad gan bob Cristion i'r gwaith o ddysgu a meithrin yn y ffydd. Cyfrifoldeb arbennig y bugail yw arwain a symbylu gwaith y dylid ei gyflawni gan y gymdeithas gyfan wrth i Gristnogion rannu a thrafod a dysgu oddi wrth ei gilydd. A gwelir hyn yn digwydd fwyfwy heddiw o fewn grwpiau a chelloedd o bob math. Ond beth bynnag yw'r cyfrwng: pregeth, ymweliad bugeiliol sgwrs bersonol, astudiaeth feiblaidd, seiat, grŵp gweddi, dosbarth Ysgol Sul, neu ddosbarth cymunwyr ifainc, o berspectif fugeiliol gellir defnyddio'r cyfryngau hyn i gyd i feithrin ffydd ac i fagu disgyblion i Iesu Grist.

* * *

Pwnc cymharol newydd yw diwinyddiaeth fugeiliol yn yr ystyr mai o fewn y chwarter canrif diwethaf yr enillodd ei lle ochr yn ochr â'r disgyblaethau diwinyddol traddodiadol eraill. Ac eto y mae'n bwnc sydd mor hen â'r eglwys Gristnogol ac wedi ei gwreiddio yng ngweinidogaeth yr Arglwydd Iesu ei hun – gweinidogaeth a gyflwynwyd ganddo i'w ddisgyblion ac a barhawyd gan ei eglwys o oes i oes. Dros y canrifoedd cyfrannwyd at ein dealltwriaeth ohoni gan ddiwinyddion, diwygwyr a bugeiliaid Cristnogol o fri, o Ambros o Milan ac Awstin o Hippo, i Martin Luther a John Calfin, i George Herbert a Richard Baxter, i John Wesley a Williams, Pantycelyn, a chan filoedd ar filoedd o weinidogion, offeiriaid ac arweinwyr lleyg anenwog a fu'n cyflawni'r gwaith yn dawel a diwyd yn eu hardaloedd a'u plwyfi eu hunain. A chan mai agwedd ar ddiwinyddiaeth ymarferol yw gofal bugeiliol, gwaith i'w gyflawni yn hytrach na'i drafod ydyw. Ond mewn dyddiau pan glywn am weinidogion ac eglwysi yn amau gwerth gofal bugeiliol ac yn colli hyder yn y dasg, y mae angen trafod yn ogystal er mwyn canfod ystyr ac arwyddocâd diwinyddol y wedd hon ar ein gwaith.

Yn y ddarlith hon yr ydym wedi ceisio amlinellu seiliau ac egwyddorion diwinyddiaeth fugeiliol yng ngoleuni cyfraniad rhai diwinyddion cyfoes. Ceisiwyd mapio'r ffiniau i gynnwys o'i mewn y gofal arbennig hwnnw o unigolion yn eu gofidiau, eu hargyfyngau a'u hymdrech i gyrraedd at aeddfedrwydd, y gelwir yr eglwys gyfan i'w fynegi ar ran ei Harglwydd yn ei holl waith a'i thystiolaeth ym mhlith ei phobl ei hun ac yn y byd oddi allan. Ceisiwyd cloddio am y seiliau ym mhrif athrawiaethau'r ffydd, gan ddehongli'r berthynas fugeiliol ar fodel yr ymgnawdoliad, y cymod a'r maddeuant a gynigir mewn gofal bugeiliol ar fodel y groes a'r iawn, a'r gobaith o fywyd newydd ar fodel yr atgyfodiad, gan gofio ar yr un pryd fod seicoleg a gwyddorau cyfoes eraill â chyfraniad i'n dirnadaeth o'n tasg. A cheisiwyd diffinio amcanion y gwaith yng ngoleuni'r ddelwedd feiblaidd o'r bugail tosturiol a gwrol yn iacháu, yn cynnal ac yn arwain y praidd. Amlinelliad cyffredinol yn unig a roddwyd o un ffordd tuag at lunio fframwaith ddiwinyddol i ofal bugeiliol. Gellid a dylid fod wedi ymhelaethu ar nifer o bynciau nad oedd amser ond i gyfeirio atynt. O bosib mai'r egwyddor ddiwinyddol bwysicaf oll ynglŷn

â gofal bugeiliol yw mai rhan ydyw o'r weinidogaeth a ymddiriedodd yr Arglwydd ei hun i'n gofal. Ohono ef y tardd. Ynddo ef y mae ei hanfod. Iddo ef yr ydym yn atebol. Chwedl Goronwy Ddu o Fôn am ei 'barchus arswydus swydd'.

*Ateb a fydd ryw ddydd raid*
*I'r Iôn am lawer enaid . . .*
*Erglyw a chymorth, Arglwydd,*
*Fy mharchus arswydus swydd.*[44]

# *Nodiadau*

[1]Derek Tidball, *Skilful Shepherds: An Introduction to Pastoral Theology,* Leicester: IVP, 1986, t.13.

[2]Michael H. Taylor, *Learning to Care,* London: SPCK, 1983.

[3]James W. Fowler, *Faith Development and Pastoral Care,* Philadephia: Fortress Press, 1987, t.17.

[4]Anthony Russell, *The Clerical Profession,* London: SPCK, 1980, t.262.

[5]Leslie Paul, *The Deployment and Payment of the Clergy,* London: CIO Publishing, 1964 a *A Church by Daylight,* London: Geoffrey Chapman, 1973.

[6]Tidball, op. cit. t.16.

[7]Taylor, op. cit. penodau 2 a 3.

[8]Frank Wright, *The Pastoral Nature of the Ministry,* London: SCM, 1980, t.19.

[9]Martin Thornton, *Pastoral Theology: A Reorientation,* London: SPCK, 1961 ac Eduard Thurneysen, *A Theology of Pastoral Care,* Richmond, Va.: John Knox Press, 1962.

[10]William A. Clebsch a Charles R. Jaekle, *Pastoral Care in Historical Perspective,* New York: Aronson, 1975, t.4.

[11]T.C. Oden, *Pastoral Theology: Essentials of Ministry,* San Francisco: Harper and Row, 1983, t.x.

[12]Huldreich Zwingli, *Der Hirt,* 1524.

[13]Gweler fel enghreifftiau, Alastair V. Campbell, *Paid to Care?* London, SPCK, 1985, a Henri J.M. Nouwen, *Creative Ministry,* New York: Doubleday, 1978.

[14]Gweler Robin Green, *Only Connect: Worship and Liturgy from the Perspective of Pastoral Care.* London: DLT, 1987.

[15]Stephen Pattison, *A Critique of Pastoral Care,* London: SCM Press, 1988, t.15. Am ymdriniaeth lawnach gweler ei bennod 'Politics and Pastoral Care'.

[16]M. David Enoch, *Healing the Hurt Mind,* London: Hodder and Stoughton, 1983, t.115. Gweler ei bennod 'A Christian Counselling Service'.

[17]Paul C. Vitz, *Psychology as Religion: the cult of self-worship,* Grand Rapids: Eerdmans, 1977, tt.91,95.

[18]Rhai o lyfrau pwysicaf J.E. Adams yw *The Big Umbrella,* Nutley, N.J.: Presbyterian and Reformed Publishing Company, 1973; *The Christian Counsellor's Manual,* Nutley, N.J.: P. and R. Publishing Co., 1975; *More than Redemption,* Grand Rapids: Baker, 1979.

[19]Tidball, op. cit., tt.268-70.

[20]Carl Jung, *Modern Man in Search of a Soul,* London, Routledge and Kegan Paul, 1961.

[21]David Deeks, *Pastoral Theology: An Inquiry,* London: Epworth Press, 1987. Gweler Pennod I 'In Search of Meaning'.

[22]Ibid. tt. 67-9.

[23]Ibid. Pennod III 'Structures for the Task'.

[24]Wesley Carr, *The Pastor as Theologian,* London: SPCK, 1989, yn y gyfres *New Library of Pastoral Care.*

[25]Ibid. tt.53-4.

[26]Ibid. tt.65-9.

[27]Philipiaid 2, 8.

[28]Henri J.M. Nouwen, *The Wounded Healer,* New York: Doubleday, 1979; Alastair V. Campbell, *Rediscovering Pastoral Care,* London: DLT, 1981, Pennod 4.

[29]Eduard Thurneysen, op. cit. t.15.

[30]Alastair Campbell, *Paid to Care?,* op. cit., t.1.

[31]Pattison, op. cit., t.13.

[32]Am ymdriniaeth lawn o hanes gofal bugeiliol gweler John C. McNeill, *A History of the Cure of Souls*, New York: Harper and Row, 1977.
[33]Seward Hiltner, *Pastoral Counselling*, New York: Abingdon, 1949; *Preface to Pastoral Theology*, New York: Abingdon, 1958; *The Christian Shepherd*, New York: Abingdon, 1959.
[34]Hiltner, *Preface to Pastoral Theology*, op. cit., t.18.
[35]Campbell, *Rediscovering Pastoral Care*, op. cit., t.28.
[36]Ibid. t.27.
[37]Denis Duncan, *Health and Healing: A Ministry to Wholeness*, Edinburgh, St. Andrew Press, 1988, t.37.
[38]Duncan, op. cit. yn y gyfres *Pastoral Care and Ethical Issues*, Golygydd Kenneth M. Boyd.
[39]Ibid. tt.26-35.
[40]Dyfynnir gan Campbell, *Rediscovering Pastoral Care*, op. cit. t.38.
[41]Pattison, op. cit. t.13.
[42]Ibid. Gweler y bennod 'Discipline and Pastoral Care'.
[43]Gweler Don S. Browning, *The Moral Context of Pastoral Care*, Philadelphia: Westminster, 1976; Regis Duffy, *A Roman Catholic Theology of Pastoral Care*, Philadelphia: Fortress, 1983; T.C. Oden, op. cit.
[44]*Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif*, D. Gwenallt Jones, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1953, 'Cywydd yn Ateb y Bardd Coch o Fôn', t.54.

## *Darlithiau D.J. James*

| | | |
|---|---|---|
| 1961 | Bleddyn Roberts | Sôn Am Achub |
| 1962 | E.T. Davies | Religion in the Industrial Revolution in South Wales |
| 1963 | W.T. Pennar Davies | Rhwng Chwedl a Chredo |
| 1964 | D.R. Griffiths | The New Testament and the Roman State |
| 1965 | Griffith T. Roberts | Dadleuon Methodistiaeth Gynnar |
| 1966 | Nantlais Williams | Faith Facing Facts |
| 1967 | Gwynfryn Richards | Gwir a Diogel Obaith |
| 1968 | W.D. Davies | The Gospel and the Land |
| 1969 | D. Eirwyn Morgan | Bedydd – Cred ac Arfer |
| 1970 | O.E. Evans | Saints in Christ Jesus |
| 1971 | James Humphreys | Yr Argyfwng Cred |
| 1972 | Eric M. Roberts | Jesus – Son of God Son of Man |
| 1973 | Maurice Loader | Yr Epistol at y Galatiaid |
| 1975 | G. Henton Davies | The Old Testament as a Whole |
| 1977 | Gwilym R. Tilsley | Crefydd y Beirdd |
| 1979 | S. Ifor Enoch | Jesus in the Twentieth Century |
| 1981 | David Protheroe Davies | Gwir Dduw o Wir Dduw |
| 1984 | Iorwerth Jones | Recent Revelation Theology |
| 1986 | Dafydd G. Davies | Canon y Testament Newydd – ei ffurfiad a'i genadwri |
| 1988 | Islwyn Blythin | Religion and Methodology: Past and Present |

**Pris – £1.25**